Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad



## Ymchwiliad i Fodloni Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu

Awst 2005

Ceir copïau pellach o'r ddogfen hon oddi wrth:

Ruth Hatton
GSC - Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8020
E-bost: Ruth.Hatton@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: http://www.cymru.gov.uk

Argraffwyd yn y DU ar bapur sy'n cynnwys 75% o wastraff ôl-ddefnydd a 25% o fwydion coed ECF

*Lluniau ar y clawr drwy ganiatâd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru*

G/209/05-06
ISBN 0 7504 3886 X

Gorffennaf
CMK-22-09-015

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Rhagair y Cadeirydd | |
| | Aelodau'r Pwyllgor | |
| | Crynodeb o'r argymhellion | |
| Adran 1 | Cyflwyniad | 1 |
| Adran 2 | Cefndir | 7 |
| Adran 3 | Yr ymchwiliad | 23 |
| Adran 4 | Casgliadau ac argymhellion | 25 |
| Atodiad 1 | Argymhellion adroddiadau rheoli gwastraff diweddar yng Nghymru | 33 |
| Atodiad 2 | Llythyr ymgynghori a anfonwyd at awdurdodau lleol Cymru | 43 |
| Atodiad 3 | Gwybodaeth a roddwyd gerbron yr ymchwiliad | 45 |
| Atodiad 4 | Crynodeb o'r dystiolaeth | 49 |

# Rhagair y Cadeirydd



Mae delio â'r gwastraff yr ydym oll yn gyfrifol amdano yn broblem gynyddol a thra difrifol yng Nghymru. Yr ydym yn tirlenwi y rhan fwyaf o'n gwastraff, tra bod y gofod ar gyfer gwneud hynny yn prysur leihau, ac er ein bod at ei gilydd yn fwy ymwybodol erbyn heddiw o'r angen i ailgylchu a chompostio, y duedd yw tybio mai problem rhywun arall yw delio â gwastraff.

Ar gyfer ein hymchwiliad, penderfynodd y Pwyllgor ganolbwyntio ar wastraff trefol a bodloni targedau tirlenwi ac ailgylchu Ewrop a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Derbyniwyd a chlywyd tystiolaeth gan ystod eang o gyrff cyhoeddus a'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, a bu i ni ymweld ag amryw o safleoedd a chyfleusterau i weld drosom ein hunain y gwahanol ddulliau a thechnolegau ar gyfer ailgylchu a chompostio ar waith.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, cred y Pwyllgor fod Cymru, ei Llywodraeth, ei hawdurdodau lleol a'i phobl, yn wynebu her sylweddol iawn i gynyddu'r maint o wastraff y mae'n ei ailgylchu a chompostio. Yr ydym felly yn argymell cyflwyno nifer o fesurau i wella perfformiad yr awdurdodau lleol hynny sydd yn ei chael yn anodd i fodloni'r targedau, ond yr ydym hefyd o'r farn y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru gynllunio'n well ar gyfer bodloni targedau yn y tymor hir. Mae'r Pwyllgor yn gwneud nifer o argymhellion o ran y broses gynllunio ac yn pwyso ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi gweledigaeth ac arweiniad ynghylch y mathau o gyfleusterau a thechnolegau y dylid eu defnyddio er mwyn bodloni'r targedau. Tra'n cydnabod y cyllid sylweddol a roes y Llywodraeth hyd yma i sicrhau lefelau uwch o ailgylchu a chompostio, yr ydym yn galw am lawer rhagor i sicrhau y bodlonir y targedau ar gyfer 2009-2010. Yr ydym hefyd yn gwneud argymhellion i addysgu pobl Cymru a newid eu hagweddau tuag at ddelio â gwastraff, ac yr ydym yn teimlo'n gryf y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog a chefnogi busnesau i greu a defnyddio'n ddyfeisgar gynnyrch sydd wedi'i ailgylchu.

Edrychaf ymlaen at dderbyn ymateb y Llywodraeth i'n hargymhellion. Hoffem ddiolch i bawb a roes dystiolaeth gerbron yr ymchwiliad. Hoffwn innau ddiolch, fel arfer, i Wasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau am eu cymorth a'u harweiniad.



ALUN FFRED JONES AC
Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Awst 2005

# Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad[1]



Alun Ffred Jones AC (Cadeirydd)
Caernarfon

Lorraine Barrett AC
De Caerdydd a Phenarth





Mick Bates AC
Sir Drefaldwyn

Glyn Davies AC
Canolbarth a Gorllewin Cymru





Irene James AC
Islwyn

Carwyn Jones AC (Gweinidog)
Pen-y-bont ar Ogwr





Helen Mary Jones AC
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Sandy Mewies AC
Delyn





Carl Sargeant AC
Alun a Glannau Dyfrdwy

Brynle Williams AM
Gogledd Cymru



[1] Yn ogystal ag aelodau presennol y Pwyllgor, cyfrannodd nifer o Aelodau eraill at yr ymchwiliad – Tamsin Dunwoody-Kneafsey AC (Preseli Sir Benfro), Jeff Cuthbert AC (Caerffili), Elin Jones AC (Ceredigion) a Janet Davies AC (Gorllewin De Cymru)

# Crynodeb o'r Argymhellion

## Targedau – ailgylchu / tirlenwi / compostio / lleihau gwastraff

**Argymhelliad 1:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarganfod pa awdurdodau lleol a all gael trafferth i gyrraedd y targed ailgylchu / compostio o 40 y cant ar gyfer 2009–10 a chydweithio â nhw i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu gosod yn eu lle i gyrraedd y targed.*

**Argymhelliad 2:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau y defnyddir strategaethau rheoli gwastraff trefol yn brif offeryn i awdurdodau lleol unigol gynllunio ar gyfer eu hanghenion rheoli gwastraff ac ar gyfer cyrraedd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ewrop.*

**Argymhelliad 3***: Y dylai awdurdodau lleol wneud defnydd llawn o wahanu deunyddiau ailgylchadwy yn y ffynhonnell a gwneud hyn mor hawdd i'r defnyddiwr ag y bo modd. (Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai deiliaid tai wahanu deunydd ailgylchadwy yn y ffynhonnell, ond y dylid caniatáu i awdurdodau lleol ddewis sut i gasglu deunyddiau a wahanwyd, e.e., gwahanu ar y palmant, MRF (Cyfleusterau Adennill Deunyddiau) glân neu safleoedd hebrwng).*

**Argymhelliad 4:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddileu'r cymhelliad gwrthnysig i awdurdodau lleol beidio ag annog compostio gartref, a datblygu mecanwaith sy'n caniatáu i gompostio gartref gyfrif tuag at dargedau osgoi tirlenwi awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol annog deiliaid tai i gompostio gartref.*

**Argymhelliad 5:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno targedau deunydd-benodol ar gyfer ailgylchu deunyddiau swmpus ond ysgafn fel plastigion.*

**Argymhelliad 6:** *Y dylai awdurdodau lleol barhau i gydweithio mewn partneriaeth â'r sectorau cymunedol, gwirfoddol a phreifat i ddatblygu cynlluniau lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu yn eu hardaloedd, gan gydnabod y sgiliau a'r arbenigedd penodol y gall y sefydliadau hyn eu cyfrannu at gyrraedd targedau.*

**Argymhelliad 7**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi pwysau ar Lywodraeth y DU i annog pobl i wastraffu llai / cosbi'r rheiny sy'n creu gwastraff diangen. Cred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth y DU ystyried ardollau cyfrifoldeb-cynhyrchwyr a gostyngiadau treth ar gynhyrchion caredicach i'r amgylchedd. Dylid trefnu bod ymateb Llywodraeth y DU ar gael i'r Pwyllgor.*

## Cynllunio / gweithio'n rhanbarthol

**Argymhelliad 8**: *Y dylid gwneud Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn statudol.*

**Argymhelliad 9**: *Yn y cyfamser, y dylid diwygio Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol i sicrhau eu bod yn dynodi lleoliadau daearyddol addas ar gyfer cyfleusterau rhanbarthol ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad cliriach i awdurdodau lleol i wireddu'r amcan hwn.*

**Argymhelliad 10**: *Y dylid hyrwyddo ymwneud y sector preifat ag awdurdodau lleol yn galetach trwy gyfrwng Fforwm Gwastraff Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a grwpiau gwastraff rhanbarthol.*

**Argymhelliad 11**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyngor ac arweiniad clir ar gynaliadwyedd gwahanol ddewisiadau o ran rheoli gwastraff.*

**Argymhelliad 12**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu canllawiau cliriach i awdurdodau lleol ynghylch:*

*i.* *pa dechnolegau yr hoffai eu gweld ar waith yng Nghymru a pha rai y mae yn dymuno eu gwrthod;*

*ii.* *pa dechnolegau y dylid eu defnyddio i drin gwastraff gweddilliol hyd nes y bydd modd cael gwared arno.*

**Argymhelliad 13**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cymorth ac arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch sut y gellid cymhwyso arferion gorau o rannau eraill o'r DU, Ewrop a'r byd yng Nghymru.*

## Cyllido

**Argymhelliad 14:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi syniad i awdurdodau lleol am lefel y cyllid cyfalaf a'r cyllid gweithredu a fydd ar gael iddynt hyd o leiaf 2013, er mwyn galluogi cynllunio hirdymor a diogeledd busnes.*

**Argymhelliad 15:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru glustnodi peth o'r cyllid rheoli gwastraff ar lefel ranbarthol er mwyn annog awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd ar ddatblygu cyfleusterau rhanbarthol, yn arbennig ar gyfer cyfleusterau mwy arbenigol fel compostio gwastraff cegin.*

**Argymhelliad 16:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu digon o gyllid i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu rhoi systemau casglu o'r palmant ar waith fesul cam hyd lefel sy'n gyson â chyrraedd targedau ailgylchu, compostio ac osgoi tirlenwi.*

**Argymhelliad 17:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu ffynhonnell gyngor ganolog i awdurdodau lleol ar faterion cyfreithiol, contractio a chyllid i'w galluogi i geisio arbenigedd, lleihau gwariant a llwyddo'n well i sicrhau ffynonellau cyllid allanol, gan gynnwys cronfeydd Ewropeaidd.*

## Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

**Argymhelliad 18**: *Y dylid addysgu pobl i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, a gwneud hynny'n barhaus, yn lleol ac mewn modd sydd wedi ei dargedu. Dylid penodi swyddogion cyswllt ym mhob awdurdod lleol i ymweld â thrigolion ac ysgolion, i gynnal sioeau teithio, etc., er mwyn cynyddu gwybodaeth deiliaid tai am yr hyn y gallant ei wneud, beth y gellir ei wneud â deunyddiau a ailgylchwyd a sut y mae gweithredoedd unigolion yn effeithio ar yr amgylchedd a'r gymuned leol. Dylai mentrau gynnwys defnyddio cynlluniau cymhelliad ac adborth cadarnhaol ynghylch pa mor dda y mae cynlluniau'n llwyddo a sut y maent o fudd i'r gymuned leol.*

**Argymhelliad 19:** *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog rhagor o ysgolion i fod yn rhan o'r rhaglen 'eco-'sgolion' sy'n cael ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus. Dylid hyrwyddo manteision y rhaglen yn ehangach o ran addysg, cydweddiad â chwricwla a'r potensial o ran arbed costau i'r ysgol.*

**Argymhelliad 20**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac awdurdodau lleol i feithrin hyder y cyhoedd yn y prosesau monitro ac atal llygredd sydd ar waith ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff. Gallai hyn gynnwys cynlluniau addysg mewn ysgolion a chymunedau sy'n agos i gyfleusterau o'r fath, ymweld â chyfleusterau, swyddogion cyswllt cymunedol a chydweithio ag ysgolion / eco-'sgolion.*

**Argymhelliad 21**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gyllido sefydliadau sy'n cyfrannu at hyrwyddo ailgylchu a chompostio.*

## Marchnadoedd / cymorth i fusnesau

**Argymhelliad 22**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog a chynorthwyo busnesau i greu cynnyrch a ailgylchwyd a marchnadoedd trwy:*

*i. ddarparu mwy o gymorth ariannol a chymorth busnes, gan gynnwys cyllid ar gyfer ymchwil a datblygu, er mwyn i fusnesau presennol a busnesau newydd yng Nghymru ddefnyddio deunydd ailgylchu o'r ffrwd wastraff drefol, creu cynnyrch a ailgylchwyd a datblygu marchnadoedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ailgylchwyd;*

*ii. annog busnesau i wneud cais am gyllid Ewropeaidd i helpu i ddatblygu eu busnesau;*

*iii. cynorthwyo datblygu cyfleuster ailgylchu ar gyfer plastigion fferm ynghyd â marchnad i'r cynhyrchion. (Er nad oedd hynny'n benodol o fewn cylch gwaith yr ymchwiliad, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwastraff amaethyddol a phlastigion fferm yn faterion pwysig).*

**Argymhelliad 23**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cymorth a chyngor i sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i gaffael mwy o gynnyrch a ailgylchwyd ac y dylid ymgorffori hyn yn y broses gaffael arferol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn esiampl o ran caffael cynnyrch a ailgylchwyd.*

**Argymhelliad 24**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog a helpu busnesau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff trwy:*

*i. gydweithio â busnesau a leolir yng Nghymru, yn arbennig manwerthwyr mawr, i'w hannog i leihau gwastraff, addysgu defnyddwyr a darparu cyfleusterau ailgylchu;*

ii. *rhoi cyngor a chymorth i gwmnïau yng Nghymru i leihau gwastraff a gwneud y defnydd gorau o wastraff, yn arbennig trwy ddarparu ffynhonnell gyngor ganolog i fusnesau / sefydliadau ynghylch sut i gynnal archwiliad o ffrydiau gwastraff, lleihau ac ailgylchu gwastraff ac arbed costau.*

## Ymchwil a datblygu

**Argymhelliad 25**: *Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru*

i. *annog sefydlu prosiectau enghreifftiol / arddangos i egluro i awdurdodau lleol a'r cyhoedd sut y mae gwahanol dechnolegau'n gweithio;*

ii. *cyllido ymchwil a datblygu a threialon maes / prosiectau arddangos ar raddfa fasnachol ar gyfer dewisiadau posibl o ran trin gwastraff gweddilliol, nes y bydd modd ei ddileu, fel bod mwy o wybodaeth ar gael i awdurdodau lleol wrth iddynt wneud penderfyniadau;*

iii. *cyllido ymchwil a datblygu i ddefnyddio deunyddiau a ailgylchwyd mewn ffyrdd newydd i wneud cynhyrchion newydd.*

# 1. Cyflwyniad

**1.1** Mae *Yn Gall gyda Gwastraff*[2], strategaeth wastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2002, yn cynnwys polisïau, gweithredoedd a thargedau sy'n anelu at wella'r modd y caiff gwastraff ei reoli yn gynaliadwy yng Nghymru ar gyfer amrywiol ffrydiau gwastraff.

**1.2** Mae ymchwiliad y Pwyllgor a'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar wastraff trefol, y ffrwd o wastraff y mae gan Lywodraeth y Cynulliad a rhanddeiliaid allweddol, fel awdurdodau lleol, fwyaf o ddylanwad drosti.

**1.3** Yn arbennig, mae a wnelo ymchwiliad y Pwyllgor yn bennaf â **thargedau ailgylchu a chompostio** ar gyfer gwastraff trefol a gynhwysir yn *Yn Gall gyda Gwastraff* ac â gallu Cymru i gyrraedd ei chyfran o **dargedau Cyfarwyddeb Tirlenwi'r DU**[3] o dan Erthygl 5.

**1.4** Y prif dargedau ar gyfer lleihau faint o wastraff trefol pydradwy (GTP) a anfonir i safleoedd tirlenwi o dan y Gyfarwyddeb Tirlenwi yw[4]:

- erbyn 2010 ni cheir tirlenwi mwy na 75 y cant yn ôl pwysau o'r GTP a gynhyrchwyd yn 1995;
- erbyn 2013 ni cheir tirlenwi mwy na 50 y cant yn ôl pwysau o'r GTP a gynhyrchwyd yn 1995;
- erbyn 2020 ni cheir tirlenwi mwy na 35 y cant yn ôl pwysau o'r GTP a gynhyrchwyd yn 1995.

**1.5** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod y targedau canlynol ar gyfer awdurdodau lleol yn *Yn Gall gyda Gwastraff*:

- erbyn 2003/04 cyflawni o leiaf 15% o ailgylchu / compostio ar wastraff trefol gydag isafswm o 5% o gompostio (gyda dim ond compost yn deillio o ddeunyddiau sydd wedi eu gwahanu yn y ffynhonnell yn cyfrif) a 5% o ailgylchu;
- erbyn 2006/07 cyflawni o leiaf 25% o ailgylchu / compostio ar wastraff trefol gydag isafswm o 10% o gompostio (gyda dim ond compost yn deillio o ddeunyddiau sydd wedi eu gwahanu yn y ffynhonnell yn cyfrif) a 10% o ailgylchu;

[2] *Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru, Rhannau Un a Dau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, (Mehefin 2002) http://www.countryside.wales.gov.uk/fe/master.asp?n1=366&n2=213&n3=368*

[3] *Cyfarwyddeb y Cyngor 1999/31/EC, 26 Ebrill 1999 ar dirlenwi gwastraff, http://europa.eu.int/comm/environment/waste/legislation/b.htm*

[4] Mae'r dyddiadau a nodir yn cynnwys pedair blynedd o randdiddymiad a roddir i Aelod Wladwriaethau, gan gynnwys y DU, a fu'n dibynnu'n drwm ar dirlenwi fel ffordd o waredu GTP, h.y. a fu'n tirlenwi dros 80 y cant o'r GTP a gesglid

- erbyn 2009/10 a thu hwnt cyflawni o leiaf 40% o ailgylchu / compostio ar wastraff trefol gydag isafwm o 15% o gompostio (gyda dim ond compost yn deillio o ddeunyddiau sydd wedi eu gwahanu yn y ffynhonnell yn cyfrif) a 15% o ailgylchu;

**1.6** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu y bydd cyrraedd y targedau hyn yn ateb gofynion y *Gyfarwyddeb Tirlenwi.* Mae paragraff 5.57 *Yn Gall gyda Gwastraff* yn nodi:

> Byddai ailgylchu a chompostio yn ôl y gyfradd targed (h.y. cyfradd 40% o 2010 ymlaen) yn cyflawni targed gwyro GTP y Gyfarwyddeb Tirlenwi yn 2010 (hyd yn oed gyda 3% o dwf [yn y gwastraff sy'n deillio]).

## Diffiniadau o wastraff pydradwy a gwastraff trefol

**1.7** Diffinnir gwastraff pydradwy a gwastraff trefol yn adran 21 Deddf Masnachu Gwastraff ac Allyriadau 2003[5] (Saesneg yn unig):

**21 "Biodegradable waste" and "municipal waste"**

(1) In this Chapter "biodegradable waste" means any waste that is capable of undergoing anaerobic or aerobic decomposition, such as-
food and garden waste, and
paper and paperboard.

(2) In this Chapter "biodegradable municipal waste" means waste that is both biodegradable waste and municipal waste.

(3) In subsection (2) "municipal waste" means-

(a) waste from households, and

(b) other waste that, because of its nature or composition, is similar to waste from households.

Mae *Yn Gall gyda Gwastraff yn diffinio gwastraff trefol fel a ganlyn:*

> …[yr] holl wastraff sydd o dan reolaeth awdurdodau lleol neu asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan. Mae'n cynnwys: yr holl wastraff a gesglir o gartrefi; sbwriel a gesglir mewn biniau, drwy ysgubo'r strydoedd a thrwy lanhau'r traethau; gwastraff a gyflwynir i fannau ailgylchu'r cyngor; parciau trefol a gwastraff o erddi; gwastraff o swyddfeydd y cyngor; gwastraff o safleoedd mwynderau dinesig; gwastraff sy'n cael

[5] Mae'r diffiniadau'n atgyngyrchu'r rhai sydd yn Erthygl 2 yn y *Gyfarwyddeb Dirlenwi.* Bwriedir i Ran 1 Deddf 2003 roi grym cyfreithiol i'r rhwymedigaethau a osodir gan Erthygl 5(1) a (2) yn y *Gyfarwyddeb Dirlenwi.*

ei ollwng yn anghyfreithlon a cherbydau sy'n cael eu gadael ar dir cyhoeddus a rhywfaint o wastraff masnachol a gesglir lle mae cytundebau casglu gwastraff awdurdodau lleol yn bodoli. Mae gwastraff trefol, fel y diffinnir ef yn Nangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau Llywodraeth Cynulliad Cymru[6] hefyd yn cynnwys gwastraff a gesglir gan awdurdodau lleol, lle maent yn gweithredu fel is-gontractwyr.

a gwastraff pydradwy fel gwastraff:


> …y gall planhigion (gan gynnwys ffyngau) ac anifeiliaid (gan gynnwys mwydod a micro-organebau) ei dorri i lawr. O ran gwastraff solet trefol, mae'r briodwedd [bydradwy] yn cael ei phriodoli fel rheol i'r tair cyfran hyn: papur a chardbord; gwastraff cegin (bwyd) a gwastraff o erddi a chyfran o decstilau, mân wastraff a gwastraff llosgadwy amrywiol, gan gynnwys cewynnau papur.

**1.8** Defnyddir Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAWPI) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fesur perfformiad awdurdodau lleol yn erbyn y targedau gwastraff trefol yn *Yn Gall gyda Gwastraff*.

## Gwastraff trefol yng Nghymru

**1.9** Anfonir y rhan fwyaf o wastraff trefol yng Nghymru i safleoedd tirlenwi. Mae Ffigur 1 yn dangos y gyfran o wastraff trefol yng Nghymru a gaiff ei ailgylchu, ei gompostio, ei anfon i safleoedd tirlenwi neu ei ddefnyddio i gynhyrchu ynni o wastraff.

**Ffigur 1 Ffawd gwastraff trefol yng Nghymru, 2003-04**





**Ffynhonnell:** Data Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003-04

[6] A elwir bellach yn Ddangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae Ffigur 2 yn cymharu'r gyfran o wastraff trefol a anfonir i safleoedd tirlenwi, a ailgylchir / a gompostir neu a ddefnyddir i gynhyrchu ynni o wastraff yn Lloegr, Cymru a'r Alban. Mae'r data a gyflwynir yn ymwneud â 2003-04 yn achos Cymru a Lloegr, ond â 2002-03 yn achos yr Alban. Mae'r ffigurau ar gyfer Cymru ychydig yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn ffigur 1 uchod oherwydd eu bod yn seiliedig ar yr Arolwg Rheoli Gwastraff Trefol, yn hytrach nag ar ddata Dangosyddion Perfformiad y Cynulliad.

**Ffigur 2  Ffawd gwastraff trefol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban**




**Ffynhonnell**: Municipal Waste Management Survey, Defra 2003-04
Arolwg Rheoli Gwastraff Trefol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003-04
Waste Data Digest 4, Scottish Environment Protection Agency, 2002-03

## Cylch gorchwyl

**1.10** Dyma gylch gorchwyl yr ymchwiliad:

- ystyried y cynnydd a fu tuag at gyrraedd y targedau ailgylchu a chompostio a nodir yn *Yn Gall gyda Gwastraff* trwy ystyried offerynnau polisi a ddefnyddir i gyflawni, gan gynnwys y gyfundrefn gynllunio, ffynonellau cyllid a'r defnydd a wneir o gyllid, a swyddogaeth rhanddeiliaid;
- ystyried yr angen am unrhyw fesurau ychwanegol i sicrhau bod Cymru'n cydymffurfio â'i rhwymedigaethau statudol o dan y *Gyfarwyddeb Tirlenwi*;
- gwneud argymhellion.

**1.11** At hynny, mae'r ymchwiliad hefyd yn rhoi ystyriaeth i ganfyddiadau dau adroddiad diweddar ar reoli gwastraff yng Nghymru gan Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae argymhellion yr adroddiadau i'w gweld yn Atodiad 1:

- *Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio rheoli gwastraff*[7];
- *Rheoli Gwastraff: Agenda Heriol i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru*[8].

**1.12** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fel rhan o'r ymchwiliad ac yn amlinellu casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor.

**1.13** Mae **Adran 2** yn gosod allan y cefndir i'r ymchwiliad, gan gynnwys y strategaeth ddeng mlynedd ar gyfer gwastraff yng Nghymru – *Yn Gall gyda Gwastraff*, pa gamau sy'n cael eu cymryd yng Nghymru i gyrraedd targedau a'r cyllid sydd ar gael i awdurdodau lleol i'w helpu i gyrraedd y targedau. Mae hefyd yn rhoi peth cefndir i'r dewisiadau posibl sydd ar gael ar gyfer trin gwastraff trefol, y drefn gynllunio mewn perthynas â chyfleusterau rheoli gwastraff a barn y cyhoedd am faterion rheoli gwastraff ac ailgylchu.

**1.14** Mae **Adran 3** yn amlinellu camau'r ymchwiliad, gan gynnwys y cyfarfodydd a gynhaliwyd, y dystiolaeth a dderbyniwyd a'r ymweliadau â safleoedd a wnaed gan aelodau'r Pwyllgor.

**1.15** Mae **Adran 4** yn crynhoi'r prif faterion a godwyd yn ystod yr ymchwiliad ac yn nodi argymhellion y Pwyllgor.

[7] *Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio rheoli gwastraff: Adroddiad y Pwyllgor (2) 01-05, (2005)*, Y Pwyllgor Archwilio. http://www.cymru.gov.uk/cynulliaddata/N0000000000000000000000000029943.rtf

[8] *Rheoli Gwastraff: Agenda Heriol i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru (2005)*, Papur Thema 9, Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru, http://ww2.audit-commission.gov.uk/wales/ig/pdf/1324A2004W.pdf

# 2 Cefndir

**2.1** Mae *Yn Gall gyda Gwastraff* yn nodi strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar reoli gwastraff yn gynaliadwy. Mae'n nodi 24 o dargedau gan gynnwys:

- targedau'r DU - a osodwyd ar gyfer y DU yn gyfan gan Gyfarwyddebau'r UE;
- y prif dargedau penodol i Gymru - mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid allweddol fel awdurdodau lleol ddylanwad dros ganlyniad y targedau hyn;
- targedau eilaidd penodol i Gymru - lle mae dylanwad Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llai.


**2.2** Yn ogystal â gosod targedau, mae *Yn Gall gyda Gwastraff* hefyd yn nodi'r drefn flaenoriaeth ar gyfer mathau o driniaeth yr hoffai Llywodraeth Cynulliad Cymru iddynt gael eu defnyddio i gyrraedd y targedau:

- lleihau faint o GTP a gynhyrchir;
- mwy o ddefnydd o gompostio gartref;
- ailddefnyddio;
- ailgylchu – trwy gasglu ar y palmant wastraff a wahanwyd, defnyddio safleoedd hebrwng ac echdynnu deunydd ailgylchadwy yn fecanyddol o wastraff trefol, ond dim ond ar gyfer gwastraff gweddilliol ar ôl casglu deunydd a wahanwyd yn y ffynhonnell;
- compostio canolog / cymunedol, pryfamaeth (*vermiculture*)[9] a / neu dreulio anaerobig;
- adennill ynni – Ynni o Wastraff (EfW);
- triniaeth fiolegol-fecanyddol (TFF) i wastraff cymysg i ffurfio gwastraff amhydradwy sefydledig.

**2.3** Yn yr un modd, mae *Yn Gall gyda Gwastraff* hefyd yn nodi'r dewisiadau sy'n cael eu ffafrio gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer ymdrin â gwastraff gweddilliol a'r camau y mae'n disgwyl i awdurdodau lleol neu'n annog awdurdodau lleol i'w cymryd. Mae'r dewisiadau sy'n cael eu ffafrio yn cyd-daro ag egwyddorion sylfaenol yr hierarchaeth wastraff, fel y dangosir yn ffigur 3, ac ystyrir mai tirlenwi yw'r dewis lleiaf ffafriol.

[9] Pryfamaeth yw magu pryfed, sy'n gallu treulio gwastraff bioddiraddiadwy anllygredig i gynhyrchu compost o safon uchel a hylif y gellir ei ddefnyddio fel gwrtaith

**Ffigur 3: Yr hierarchaeth wastraff sylfaenol**




## Cynnydd hyd yma

**2.4** Er mwyn monitro cynnydd tuag at gyrraedd targedau, mae *Yn Gall gyda Gwastraff* yn nodi nifer o ddangosyddion. Tasg Fforwm Gwastraff Cymru[10] yw monitro a chynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch gweithredu'r strategaeth.

**2.5** Mae data Dangosyddion Perfformiad diweddaraf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (NAWPI), ar gyfer 2003/04, yn dangos i naw awdurdod lleol fethu â chyrraedd eu targed ailgylchu a chompostio o 15 y cant, er i'r targed 15 y cant gael ei gyrraedd dros Gymru gyfan.


**2.6** At hynny, roedd y data NAWPI yn dangos amrywiaeth mawr yn y gyfran o'r boblogaeth sy'n cael gwasanaeth casglu deunydd ailgylchadwy o'r palmant. Trwy Gymru, roedd gan 67 y cant o'r boblogaeth wasanaeth casglu deunydd ailgylchadwy o'r palmant. Mewn naw awdurdod lleol, roedd dros 90 y cant o'r boblogaeth yn cael casgliadau palmant, ond mewn pump, roedd llai nag 20 y cant o'r boblogaeth yn cael casgliadau palmant. Mae ffigur 4 yn dangos y gyfran o gartrefi sy'n cael casgliadau palmant.

**2.7** Mae pum prosiect partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a'r sector gymunedol hefyd wedi eu dewis yn 'brosiectau enghreifftiol' i sicrhau cyfraddau ailgylchu a chompostio o dros 50 y cant o wastraff trefol o fewn tair blynedd i ddechrau gweithredu.[11]

[10] Fe'i sefydlwyd ym mis Rhagfyr 2000 i ddwyn ynghyd sefydliadau o ddiwydiant, llywodraeth leol, y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus ac arbenigwyr i gydweithredu er mwyn adnabod a thrafod y prif faterion o ran rheoli gwastraff yn gynaliadwy yng Nghymru.

[11] Mae'r pum prosiect enghreifftiol yng Ngheredigion, Ynys Môn, Casnewydd, Powys a Thor-faen

**Ffigur 4: Y ganran o gartrefi sy'n cael casgliadau gwastraff oddi ar y palmant, 2003-04**




**Ffynhonnell:** Data Dangosyddion Perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003-04

**2.8** Mae Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol (gogledd, de-ddwyrain a de-orllewin) wedi nodi'r dewisiadau rheoli gwastraff mwyaf cynaliadwy o fewn rhanbarthau a maint y cyfleusterau sydd eu hangen, ond nid ydynt wedi dynodi safleoedd addas posibl ar gyfer cyfleusterau o'r fath.

**2.9** I helpu i greu marchnadoedd ar gyfer cynnyrch a ailgylchwyd, sefydlwyd Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) a chynllun Creu Marchnadoedd Cymreig ar gyfer Deunydd Ailgylchu (CWMre) Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru. Mae WRAP yn rhaglen ar gyfer y DU gyfan a gefnogir yn ariannol gan Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, ond daw'r cyllid ar gyfer Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru yn bennaf o gronfeydd strwythurol yr UE a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## Dewisiadau o ran trin gwastraff

**2.10** Compostio ac ailgylchu yw'r dewisiadau sy'n cael eu ffafrio fwyaf ar gyfer trin / gwaredu gwastraff trefol, fel y nodir yn *Yn Gall gyda Gwastraff*. Yn dilyn hynny mae treulio anaerobig, ynni arall o wastraff (EfW), trin gwastraff cymysg yn fecanyddol fiolegol (TFF), ac yn olaf, tirlenwi. Mae Tabl 1 yn crynhoi manteision ac anfanteision yr amryfal ddewisiadau o ran triniaeth (gweler tudalen 13).

## *Compostio*[12]

**2.11** Compostio yw pydru naturiol ar ddeunyddiau organig gan ficro-organebau ym mhresenoldeb aer; gellir ei rannu'n ddau ddosbarth:

i. compostio awyru (windrow) – defnyddir ar gyfer gwastraff gardd a gwastraff gwyrdd, a bentyrrir yn rhesi hir a'i awyru trwy droi'r deunydd yn fecanyddol neu orfodi aer trwyddo. Gellir gwneud hyn y tu allan neu mewn adeiladau (rhesi awyru dan do);

ii. compostio mewn cynwysyddion - yn digwydd mewn cynhwysydd neu dwnnel caeedig a gellir ei ddefnyddio i gompostio gwastraff cegin ac arlwyo, gan y gellir ei reoli i wneud yn siŵr y cyrhaeddir tymheredd sy'n dinistrio bacteria, er mwyn cydymffurfio â Deddfwriaeth Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid.[13]

**2.12** At hynny, gellir cynnwys **prygompostio**, sy'n defnyddio pryfed i ddadelfennu mater organig.

## *Cyfleusterau Adennill Deunyddiau*[14]

**2.13** Defnyddir Cyfleusterau Adennill Deunyddiau (MRFs – a yngenir "myrffs") i wahanu gwahanol gydrannau'r ffrwd o wastraff er mwyn adennill deunydd ailgylchadwy ac yna cywasgu, swmpu a storio'r gwastraff cyn ei anfon i gael ei ailbrosesu. Gellir isrannu MRFs yn ddau ddosbarth:

i. MRFs glân - maent yn prosesu gwastraff a wahanwyd yn y ffynhonnell, yn tynnu allan unrhyw halogyddion ac yn swmpu'r gwahanol ffrydiau gwastraff i wneud yn siŵr eu bod o safon addas i fynd i gael eu hailbrosesu. Mae MRFs glân yn adennill tua 90 y cant neu ragor o'r deunyddiau sy'n mynd i mewn i'r cyfleuster;

ii. MRFs budr - maent yn prosesu gwastraff cymysg er mwyn gwahanu deunydd ailgylchadwy a deunydd anailgylchadwy ac yna'n swmpu'r gyfran ailgylchadwy o'r ffrwd wastraff ac yn ei hanfon i'w phrosesu. Maent fel rheol yn adennill 10 – 15 y cant o'r deunydd fel deunydd ailgylchadwy, ac mae angen triniaeth bellach ar y gweddill neu ei roi mewn safle tirlenwi. Mae ansawdd y deunydd ailgylchu a gynhyrchir yn is nag a geir o MRFs glân, oherwydd lefelau uwch o halogiad a gwahanu llai effeithlon ar y deunydd ailgylchadwy.

---

[12] Gwefan Mechanical Biological Treatment, http://www.waste-technologies.co.uk/index.html

[13] *Animal By-Products Regulations 2003 (OS 2003/1482), Animal By-Products Regulations (Wales) 2003 (OS 2003/2756), Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003. (OS 2003/2756(W.267)),Animal By-Products Regulations (Scotland) 2003 (OSA 2003/411)*

[14] *Materials Recovery Facilities Information Sheet*, Warmer Bulletin Information Sheet, http://www.env.leeds.ac.uk/envi2063/WB58-IS_(MRFs).pdf
Gwefan Mechanical Biological Treatment, http://www.waste-technologies.co.uk/index.html

**2.14** *Mae Yn Gall gyda Gwastraff yn argymell defnyddio MRFs glân ar y cyd â chasgliadau palmant neu ddeunydd ailgylchadwy a wahenir yn y ffynhonnell fel y dull a ffefrir fwyaf ar gyfer cynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio. Dim ond i roi hwb i gyfraddau ailgylchu y dylid defnyddio MRFs budr, yn hytrach nag i ddisodli casgliadau a wahenir yn y ffynhonnell.*

## *Treulio anaerobig*[15]

**2.15** Treulio anaerobig (TA) yw'r dadelfennu biolegol ar wastraff organig gan ficro-organebau yn niffyg ocsigen mewn cynhwysydd caeedig. Mae'n gofyn am amodau cynnes, felly mae angen rhywfaint o wres ar y cynhwysydd.

**2.16** Mae TA yn cynhyrchu deunydd solet gweddol sefydlog, elfen o hylif a bionwy fflamadwy o fethan ($CH_4$) a charbon deuocsid ($CO_2$). Gellid defnyddio'r deunydd solet i wella'r pridd, neu fel gwrtaith, ac mae modd defnyddio'r elfen hylif hefyd fel gwrtaith; gellir defnyddio'r bionwy fel tanwydd, a pheth ohono i ddarparu gwres ar gyfer y broses dreulio.

**2.17** Mae dadelfennu anaerobig ar wastraff organig hefyd yn digwydd mewn safleoedd tirlenwi, gan arwain at gynhyrchu nwy tirlenwi. Ond gellir cynhyrchu a chasglu bionwy yn fwy effeithlon o lawer o dreulydd anaerobig nag o safle tirlenwi.

## *Ynni o wastraff*[16]

**2.18** Mae'r term 'ynni o wastraff' (EfW) yn cynnwys yr holl brosesau trin gwastraff sy'n defnyddio gwastraff i gynhyrchu pŵer a gwres, ac ar yr un pryd yn lleihau maint a phwysau'r gwastraff. Mae'n cynnwys treulio anaerobig, defnyddio'r nwy o safleoedd tirlenwi, llosgi, nwyeiddio a phyrolysis. Mae'r gwahanol driniaethau'n cynhyrchu gwahanol allyriadau a gweddillion.

---

[15] *Anaerobic digestion, The Wasteguide: The Stakeholders Guide to Sustainable Waste Management*, y wefan arweiniad i wastraff,
http://www.wasteonline.org.uk/resources/Wasteguide/mn_wmo_biotreatment_anaerobic.html
Anaerobic digestion – Overview, gwefan ATLAS,
http://europa.eu.int/comm/energy_transport/atlas/htmlu/adover.html
Gwefan Mechanical Biological Treatment, http://www.waste-technologies.co.uk/index.html

[16] Waste Today – an overview of waste management in the UK, (1998), Gwefan Waste online,
http://www.wasteonline.org.uk/resources/WasteWatch/WasteToday.htm
Incineration, The Wasteguide: The Stakeholders Guide to Sustainable Waste Management, y wefan arweiniad i wastraff,
http://www.wasteonline.org.uk/resources/Wasteguide/mn_wmo_thermtreatment_incin.html
*Energy from Waste*, gwefan y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff, http://www.iwm.co.uk/pma/1488

i. mae llosgi'n golygu llosgi gwastraff yn uniongyrchol, gan ei droi'n ynni a llwch gwastraff. Mae'r rhan fwyaf o losgyddion yn y DU yn llosgyddion màs-losgi, sy'n llosgi gwastraff cymysg. Gellir defnyddio llosgyddion i gynhyrchu trydan yn unig neu i gynhyrchu gwres a phŵer (CHP);

ii. pyrolysis yw'r dadelfennu thermol ar wastraff yn niffyg aer i gynhyrchu golosg, olew a nwy synthesis (syngas), e.e. troi coed yn siarcol;

iii. mae nwyeiddio'n gweithredu ar dymheredd uwch na phyrolysis ac yn dadelfennu hydrocarbonau yn nwy synthesis ym mhresenoldeb hyn a hyn o ocsigen. Gellir bwydo'r cynnyrch a ddaw o byrolysis i broses nwyeiddio.

## *Triniaeth Fecanyddol Fiolegol*[12]

**2.19** Datblygwyd Triniaeth Fecanyddol Fiolegol (TFF) yn wreiddiol fel ffordd o drin gwastraff trefol gweddilliol, ar ôl ailgylchu deunydd a wahenir yn y ffynhonnell. Gall rhai systemau TFF weithredu heb wahanu cychwynnol yn y ffynhonnell. Nid un broses yw TFF, ond disgrifiad sy'n berthnasol i'r cyfuniad o baratoi a gwahanu gwastraff, adennill deunydd ailgylchadwy a'r sefydlogi ar gyfran bydradwy trwy gompostio neu dreulio anaerobig.

**2.20** Gellir defnyddio TFF i roi hwb i gyfradd ailgylchu awdurdodau lleol sydd â chyfradd gyfranogi uchel mewn ailgylchu palmant trwy dynnu allan fwy o ddeunydd ailgylchadwy, neu wella perfformiad awdurdodau sydd â chyfraddau cyfranogi isel o gasgliadau palmant heb orfod rhoi cynlluniau casglu palmant a'r seilwaith cysylltiedig ar waith.

**Tabl 1 Manteision ac anfanteision dewisiadau o ran trin gwastraff**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| *Compostio* | |
| • Yn cynhyrchu cynnyrch a all gael ei werthu / ei ddefnyddio<br>• Yn lleihau cyfaint gwastraff organig 25 i 50 y cant<br>• Yn gwneud tirlenwi'n haws ei drin trwy dynnu allan gwastraff organig | • Rhaid i ansawdd y cynnyrch fod yn addas<br>• Yn sensitif i halogiad gan ddeunyddiau na ellir eu compostio<br>• Gall pryderon am bathogenau effeithio ar y farchnad ar gyfer deunyddiau wedi eu compostio<br>• Problemau drewdod a thrwytholch yn bosibl<br>• Pryderon am effaith bioerosolau ar iechyd |
| *Cyfleusterau Adennill Deunyddiau (MRFs)* | |
| • Mae MRFs glân yn ailgylchu'n effeithlon iawn ac yn cynhyrchu deunydd ailgylchu da<br>• Gellir defnyddio MRFs budr i roi hwb i ailgylchu ar ôl gwahanu yn y ffynhonnell<br>• Gellir eu cyfuno â system reoli gwastraff integredig | • Mae angen i ddeiliaid tai gydweithredu â MRFs glân i wahanu gwastraff<br>• Nid yw MRFs budr yn annog deiliaid tai i gymryd rhan mewn rheoli gwastraff<br>• Mae gan MRFs budr effeithlonrwydd ailgylchu isel os na chânt eu defnyddio ar y cyd â gwahanu yn y ffynhonnell<br>• Risgiau posibl i iechyd gweithwyr, yn arbennig mewn MRFs budr<br>• Problemau llwch a drewdod posibl |
| *Treulio anaerobig (TA)* | |
| • Yn gwneud tirlenwi'n haws ei drin trwy dynnu gwastraff organig allan<br>• Gellir casglu'r holl nwy a gynhyrchir trwy fioddiraddio i'w ddefnyddio<br>• Yn cynhyrchu gwrteithiau a chyflyrwyr pridd<br>• Costau cyfalaf cymharol isel<br>• Yn cydymffurfio â deddfwriaeth Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid ar gyfer trin gwastraff cegin | • Heb ymsefydlu eto yn y DU<br>• Angen prosesu ymlaen llaw gan y gall halogyddion beri anawsterau gweithredol<br>• Angen datblygu'r farchnad ar gyfer cynhyrchion<br>• Gall fod effeithiau / problemau drewdod<br>• Gall yr hylif a gynhyrchir gynnwys crynodiadau cymharol uchel o fetelau, nitrogen, organeg |

| Manteision | Anfanteision |
| --- | --- |
| *Ynni o wastraff (EfW)* | |
| • Gall drafod gwastraff cymysg neu wastraff a wahenir yn y ffynhonnell.<br>• Yn lleihau pwysau (hyd at 75 y cant) a chyfaint (hyd at 90 y cant) gwastraff<br>• Gellir gweithredu nwyeiddio / pyrolysis ar amrywiol raddfeydd neu ar sail modylol<br>• Yn dinistrio / dadwenwyno gwastraff a all achosi problemau wrth dirlenwi.<br>• Gall adennill ynni gymryd lle defnyddio tanwydd ffosilau | • Angen rhag-drin gwastraff (oni ddefnyddir màs-losgi)<br>• Gall màs-losgi leihau hyblygrwydd cynlluniau rheoli gwastraff oherwydd yr angen am gontractau gwaredu gwastraff hirdymor.<br>• Cyfalaf ddwys - yn fwyaf cost-effeithiol pan weithredir ar raddfa fawr<br>• Annerbyniol gan y cyhoedd sy'n credu bod perygl i iechyd<br>• Gall tynnu deunydd ailgylchadwy allan leihau'r gwerth caloriffig, gan effeithio<br>• Ystyrir yn wastraff adnoddau<br>• Angen triniaeth |
| *Triniaeth Fecanyddol Fiolegol* | |
| • Yn cynyddu faint o ddeunydd ailgylchadwy a adenillir heb orfod cynyddu casgliadau palmant<br>• Lleihau cyfaint gwastraff<br>• Gall camau dosbarthu a gwahanu dynnu allan eitemau gwastraff peryglus o gartrefi<br>• Yn lleihau cynnwys pydradwy gwastraff ac yn sefydlogi'r gweddill.<br>• Tuedd i'r gweithfeydd fod yn fodylol, ac felly gallant fod yn fach neu'n fwy trwy ychwanegu / tynnu unedau. | • Nid yw'r deunydd ailgylchadwy o'r un ansawdd na gwerth â'r deunydd a geir o gasgliadau palmant / safleoedd hebrwng<br>• Angen datblygu marchnadoedd ar gyfer y cynhyrchion<br>• Mae cyfran o'r gweddillion yn bydradwy a gall y Gyfarwyddeb Tirlenwi ei rhoi yn y dosbarth GTP.<br>• Y gweddill yn debygol o fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid |

## Cynllunio rheoli gwastraff

**2.21** Seilir y fframwaith cynllunio ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch rheoli gwastraff trefol yng Nghymru ar gyfres o ofynion deddfwriaethol, dogfennau polisi, canllawiau a chynlluniau gan gynnwys:

- *Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff*[17] – mae hon yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod Wladwriaethau sefydlu rhwydwaith integredig a digonol o gyfleusterau gwastraff;
- *Yn Gall gyda Gwastraff* – strategaeth wastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- *Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru*[18] - mae hwn yn gosod allan fframwaith strategol i lywio datblygiadau a pholisïau'r dyfodol ar gyfer cynllunio defnydd o dir;
- P*olisi Cynllunio Cymru*[19] - mae hwn yn gosod allan polisïau cynllunio defnydd o dir Llywodraeth Cynulliad Cymru;
- *Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff*[20] (TAN 21) - mae'n rhoi arweiniad manylach i awdurdodau lleol ar ddatblygu Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol a'r gofynion penodol y mae'n rhaid ymgymryd â nhw wrth baratoi cynlluniau datblygu awdurdodau lleol;
- Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol (CGRh) - trefniadau gwirfoddol ar y cyd rhwng awdurdodau lleol mewn tri rhanbarth: gogledd, de-ddwyrain a de-orllewin Cymru yn cwmpasu pob math o wastraff. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn credu bod CGRh yn hanfodol i weithredu *Yn Gall gyda Gwastraff* ac i ateb rhwymedigaethau rheoli gwastraff yr UE;
- Strategaethau Rheoli Gwastraff Trefol – strategaethau gwirfoddol, a baratoir gan awdurdodau lleol unigol[21], i ddynodi eu cynlluniau ac i gyrraedd targedau rheoli gwastraff trefol;

---

[17] *Cyfarwyddeb y Cyngor, 15 Gorffennaf 1975 ar wastraff (75/442/EEC) (fel y'i diwygiwyd)* http://europa.eu.int/comm/environment/waste/legislation/a.htm

[18] *Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru, (2004), Llywodraeth Cynulliad Cymru,* http://www.cymru.gov.uk/themesspatialplan/index.htm

[19] *Polisi Cynllunio Cymru, (2002) Llywodraeth Cynulliad Cymru,* http://www.cymru.gov.uk/subiplanning/content/planningpolicy/final/contents-w.htm

[20] *Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, (2001) Llywodraeth Cynulliad Cymru,* http://www.wales.gov.uk/subiplanning/content/tans/tan21/contents-e.htm

[21] *yn unol ag Arweiniad ynghylch Strategaethau Rheoli Gwastraff Trefol yng Nghymru (Awst 2002), Llywodraeth Cynulliad Cymru,* http://www.cymru.gov.uk/subienvironment/content/guidance/waste-guidance-w.doc

- Cynlluniau Datblygu Unedol (CDU) / Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) a baratoir gan awdurdodau lleol unigol ar gyfer pob math o ddatblygiad.[22] Mewn perthynas â gwastraff, dylai CDU ddynodi lleoliadau / safleoedd neu fathau o leoliad /ardal a all fod yn dderbyniol ar gyfer cyfleusterau gwastraff. Dylai CDU fod yn unol â CGRh ac â strategaethau rheoli gwastraff trefol.[23]

**2.22** Awdurdodau cynllunio lleol sy'n bennaf cyfrifol am hwyluso datblygu seilwaith rheoli gwastraff. I raddau helaeth, y sector preifat, y sector cymunedol / gwirfoddol ac, o bosibl, awdurdodau lleol eu hunain fydd yn datblygu'r seilwaith rheoli gwastraff ei hun. Mae'r canllawiau'n cydnabod bod data da ar gynhyrchu gwastraff ac ar allu'r cyfleusterau sydd gennym a chyfleusterau'r dyfodol yn hollbwysig, a hynny ar gyfer datblygu cynlluniau rhanbarthol a lleol a hefyd i sicrhau buddsoddi yn y cyfleusterau newydd sydd eu hangen i ddarparu'r cynlluniau hynny.

**2.23** Un o'r materion allweddol i roi sylw iddo gan y system gynllunio yw lleoliad cyfleusterau rheoli gwastraff newydd, yn arbennig gan eu bod yn aml yn ddadleuol yn eu hanfod. Dyma a ddywed TAN 21 *(Saesneg yn unig)*:

> 2.15 A key element in the RWP will be agreement of the apportionment of facilities to local authorities. It would be for the individual local authorities to determine actual locations of facilities and make provisions in their UDP, and the RWP to specify the type, capacity and approximate location or type of location.
>
> 2.16 The identification of areas or types of location for future facilities will be of particular importance. The RWP would not allocate sites for facilities, but it will indicate areas of need and search for potential sites for future facilities, and where possible, a choice of locations that once agreed in the due local political process and in recognition of existing contractual arrangements, would serve the region. In some cases (for instance if the waste to be treated is of an infrequently arising type) a facility might serve other regions also.

[22] O dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, mae CDLl i gymryd le CDU, a bydd CDLl yn symlach a mwy cryno ac yn canolbwyntio ar amcanion yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer defnyddio a datblygu tir yn eu hardal ac ar bolisïau cyffredinol i weithredu'r amcanion hyn. Bydd angen dyraniadau penodol i sicrhau bod anghenion datblygu'n cael eu hateb. Bydd cyfle i gael polisïau manylach (gan gynnwys cynigion safle-benodol).

[23] Erbyn diwedd Mawrth 2005, dim ond dau awdurdod lleol a oedd wedi mabwysiadu CDU – Wrecsam a Sir Ddinbych.

**2.24** Mae eglurhad pellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ddatblygu CDU yn nodi:

> Ystyrir mai'r lleoliadau mwyaf addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yw safleoedd diwydiannol cyffredinol, nes ceir cytundeb ar leoliad cyfleusterau rheoli gwastraff newydd ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.[24]

**2.25** Mae pob un o'r CGRh wedi eu paratoi a chafwyd cytundeb arnynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.[25] Bu pob un o'r cynlluniau yn destun arfarniad Dewis Rheoli Gwastraff Cynaliadwy, Asesiadau o Effaith ar Iechyd ac ymgynghori cyhoeddus. Mae pob dewis a ffefrir yn golygu cynyddu ailgylchu a chompostio i'r eithaf. Mae CGRh gogledd a de-orllewin Cymru yn cynnig trin gwastraff gweddilliol â chyfuniad o ynni o wastraff, TFF a thirlenwi, ac mae CGRh y de-ddwyrain yn mynd am TFF, gyda'r gwastraff gweddilliol o'r broses hon yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi neu ei ddefnyddio fel Tanwydd o Sbwriel.

**2.26** Mae'r Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol wedi dynodi'r dewisiadau rheoli gwastraff mwyaf cynaliadwy o fewn rhanbarthau a maint y cyfleusterau angenrheidiol, ond nid ydynt wedi dynodi safleoedd addas posibl ar gyfer cyfleusterau o'r fath. Mae'r holl CGRh yn cynnwys arweiniad ar y math o leoliad a fyddai'n addas ar gyfer y mathau o gyfleusterau gwastraff a ddynodir o dan y dewisiadau triniaeth a ffefrir ac mae pob cynllun yn nodi canlyniadau cadarnhaol o ran cydweithredu rhwng awdurdodau wrth baratoi'r cynlluniau.

**2.27** Bu pob un o strategaethau rheoli gwastraff trefol awdurdodau lleol yn ddiweddar yn destun adolygiad gan ymgynghorwyr ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, er nad yw canlyniadau'r adolygiad hwn ar gael wrth inni ysgrifennu.

## Cyllid rheoli gwastraff

**2.28** Mae cyllid ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru ar gael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ac amryw o ffynonellau eraill, ac fe'i hamlinellir isod.

---

[24] Nodyn i Egluro Polisi Cynlluniau Datblygu Unedol - Polisïau Gwastraff Ceisiadau Cynllunio ar Gyfer Gwastraff Peryglus, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 28 Mai 2004, http://www.cymru.gov.uk/subiplanning/content/circulars/waste-sub-let-w.htm

[25] Gellir gweld yr holl CGRh ar wefan Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol Cymru yn: http://www.walesregionalwasteplans.gov.uk

## *Cyllid awdurdodau lleol*

**2.29** Mae gan awdurdodau lleol nifer o swyddogaethau casglu a gwaredu gwastraff statudol, fel y disgrifir yn *Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990*. Mae'r rhain yn cynnwys casglu gwastraff (gan gynnwys deunydd ailgylchadwy) a darparu safleoedd amwynder dinesig, lle gall deiliaid tai fynd â gwastraff cartrefi i'w ailgylchu, ei gompostio a'i waredu. Cyllidir y swyddogaethau hyn yn bennaf gan Grant Cynnal Refeniw (GCR) Llywodraeth Cynulliad Cymru, ond hefyd gan gyfran o Dreth Gyngor yr awdurdod lleol. Ni chaiff y GCR ei glustnodi ar gyfer unrhyw wasanaeth arbennig, ac felly gall awdurdodau lleol ei wario yn ôl eu blaenoriaethau eu hunain.

**2.30** Ers 2001-02, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol trwy gyfrwng Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy Penodol, na ellir ond ei wario ar rai gweithgareddau penodol sy'n ymwneud â rheoli gwastraff ac ailgylchu ac sy'n ychwanegol at weithgareddau a ariennir gan yr GCR. Ni chaiff ei ddefnyddio i gyllido prosiectau ynni o wastraff.[26] Rhwng 2001-02 a 2004-05 darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant penodol a chymeradwyaeth credyd atodol[27] o £63.5 miliwn i awdurdodau lleol. Mae £93 miliwn arall yn cael ei neilltuo ar gyfer 2005-08.[28]

**2.31** Yn 2004, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru system brocera grantiau i ganiatáu i awdurdodau lleol wario mwy na'u dyraniad Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy Penodol trwy fenthyca oddi wrth awdurdodau a oedd yn tanwario. Mae hyn yn sicrhau nad yw arian a danwerir yn cael ei golli.

**2.32** Caiff awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio arian Grant Cymell Perfformiad i ariannu gweithgareddau rheoli gwastraff. Telir Grant Cymell Perfformiad i awdurdodau lleol ar sail cytundebau polisi gwirfoddol rhwng awdurdod lleol unigol a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**2.33** Mae'r awdurdodau lleol hynny sy'n arwain Grwpiau Gwastraff Rhanbarthol yn cael cyllid ychwanegol i gynorthwyo'r gwaith hwnnw.

[26] Fodd bynnag, o 2004-05, gellir defnyddio'r grant ar gyfer prosiectau treulio anaerobig os yw'r deunyddiau a dreulir yn wastraff bwyd a llysieuol a gesglir ar wahân ac os yw'r treuliad yn cael ei gompostio wedi hynny.

[27] Darparwyd £3 miliwn o gymeradwyaeth credyd atodol yn 2002-03 a £5 miliwn yn 2003-04.

[28] *£93 miliwn i'w gwneud yn haws i bawb ailgylchu, (2005)* datganiad i'r wasg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, 12 Ebrill 2005:
http://www.cymru.gov.uk/servlet/PressReleaseBySubject?area_code=37DD16D100061FAC000004C500000000&document_code=N000000000000000000000000030126&p_arch=null&module=dynamicpages&month_year=4l2005

**2.34** Mae Tabl 2 isod yn dangos faint a wariwyd gan awdurdodau lleol ar gasglu a gwaredu gwastraff trefol rhwng 2001-02 a 2003-04, gan gynnwys cyllid Grant Cynnal Refeniw, Treth Gyngor a phob grant arall.

**Tabl 2 Gwariant Awdurdodau Lleol ar gasglu a gwaredu sbwriel, 2001-02 hyd 2003-04 (yn cynnwys pob ffynhonnell gyllid)**

*£000'au*

| Blwyddyn | Casglu sbwriel | Gwaredu sbwriel | Cyfanswm y Flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 2001-02 | 53,062 | 48,090 | 101,152 |
| 2002-03 | 59,286 | 54,175 | 113,461 |
| 2003-04 | 69,852 | 61,601 | 131,453 |
| **Cyfanswm** | **182,200** | **163,866** | **346,066** |

**Ffynhonnell**: Llywodraeth Cynulliad Cymru

## *Ffynonellau cyllid eraill*

**2.35** Mae cyllid y gellir ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol, y sector preifat a'r sector cymunedol / gwirfoddol (a fydd yn aml yn cydweithio mewn partneriaeth) i helpu i gyrraedd y targedau ailgylchu a chompostio gwastraff trefol yn cynnwys:

- Cynllun Ailgylchu Strategol – a lansiwyd yn 2004; mae'n darparu cyllid ar gyfer prosiectau ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio ar draws Cymru. Mae £6.8 miliwn o arian cyfatebol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am £13 miliwn o gyllid yr UE. Mae grantiau o hyd at £1.5m ar gael ar gyfer prosiectau. Rhaid i bob cais gynnwys yr awdurdod lleol a'r dewis a ffefrir yw cydweithio mewn partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol;
- Cleanstream - rhan o'r rhaglen Trawsnewid eich Gwastraff, a ariennir o Gronfa'r Loteri Fawr ar gyfer y DU gyfan. Nod y cynllun yw cael cymunedau ledled Cymru i ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff. Mae cyfanswm o £2.65 miliwn ar gael fel grantiau gwerth rhwng £25,000 a £300,000 rhwng 2003/04 a 2006/07. Mae'r holl adnoddau Cleanstream cyfredol wedi eu dyrannu'n llawn;
- Enfys – cynllun grant £7.5 miliwn a ariennir o Gronfa'r Loteri Fawr. Gall cynlluniau ailgylchu fod yn gymwys i gael grantiau o rhwng £5,000 a £100,000. Daw'r cynllun i ben yn 2005;
- Cyllid yr UE - gall prosiectau ailgylchu fod yn gymwys i gael cyllid Amcan 1 yn amodol ar ateb meini prawf cymhwyster perthnasol;

- Rhaglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru / y Gronfa Adfywio Ffisegol - cynlluniau i gynorthwyo adfywio cymunedau, naill ai i sefydliadau cymunedol/ gwirfoddol neu i awdurdodau lleol.
- Cyllid arall gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – a ddefnyddir, er enghraifft, i gyllido sefydliadau a all gyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at gyrraedd targedau ailgylchu a lleihau tirlenwi, e.e. Cylch (Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru), y Cynllun Craff am Wastraff a Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP);
- gall busnesau gael amryfal grantiau y gellid eu defnyddio ar gyfer prosiectau rheoli gwastraff, fel Cymorth Rhanbarthol Dewisol, Grant Buddsoddi'r Cynulliad a grantiau Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol Awdurdod Datblygu Cymru.

## Barn y cyhoedd am wastraff a rheoli gwastraff [29]

**2.36** Mae ymwybyddiaeth o wastraff, gwastraff cartref a dulliau gwaredu yn isel yn y DU. Mae pobl at ei gilydd yn pryderu am yr amgylchedd, ond mae gwastraff yn isel ar eu rhestr o bryderon, o gymharu â materion byd-eang fel newid hinsawdd, oni chânt eu holi'n benodol am faterion gwastraff. Mae deiliaid tai yn pryderu mwy am 'lanast' na gwastraff, ac felly caiff eitemau eu gwaredu'n ddiarwybod fel rhan o ymdrech gyffredinol i gadw pethau'n 'daclus'.

**2.37** Mae ymwybyddiaeth y cyhoedd o gostau gwaredu gwastraff hefyd yn wael, gyda'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod cost casglu a gwaredu gwastraff yn llawer uwch nag ydyw mewn gwirionedd. Mae llawer iawn o bobl yn credu hefyd bod ailgylchu yn arbed arian i gynghorau.

**2.38** Mae ailgylchu, compostio ac ailddefnyddio yn dderbyniol iawn ym marn y cyhoedd, gyda hyd at 98 y cant yn ystyried ailgylchu yn weithgaredd gwerth chweil, ond ychydig o deimlad o 'berchenogaeth' ar

---

[29] *Household waste behaviour in London, (2001),* MORI & Brook Lyndhurst, Resource Recovery Forum
*Public attitudes towards recycling and waste management, (2002)*, MORI, Cabinet Office
*Public attitudes to waste and waste management, (2000)*, Burnley, S. & Parfitt, J., Department of Environmental and Mechanical Engineering, The Open University
*Public Attitudes to Reduce, Reuse, Recycle in Scotland*, Waste Aware Scotland
*Environment Agency Household Waste Survey 2002, (2002)*, Environment Agency
Gravesham blue bag trail end of project report, Sweatman, I, Resource Recovery Forum
*Assessment of kerbside collection schemes for dry recyclables, (2001)*, Waste Research Limited & AEA Technology, Resource Recovery Forum
*Effective implementation of a marketing communications strategy for kerbside recycling: a case study from Rushcliffe, UK, (2004)*, Mee, N., Clewes, D., Phillip, P.S. & Read, A.D., Resources, Conservation and Recycling, 42, pp1-26

reoli gwastraff sydd gan bobl. Maent yn uniaethu rhai ffactorau â chynhyrchu mwy o wastraff, e.e. diwylliant prynu, twf poblogaeth, pecynnau, ond ychydig sy'n cysylltu eu hymddygiad eu hunain â'r materion hyn.

**2.39** Yn aml iawn, problem rhywun arall yw gwastraff, problem y cyngor fel rheol, ac nid yw cynhyrchu llai o wastraff yn aml yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb iddyn nhw, neu mae'n rhywbeth nad oes ganddynt fawr o reolaeth drosto. Mae pobl yn teimlo y gallant wneud mwy gyda'r help cywir, a nifer fechan sy'n teimlo bod y llywodraeth yn gwneud digon i hyrwyddo ailgylchu.

**2.40** Mae codi tâl am waredu gwastraff ar sail faint o wastraff a gynhyrchir, a elwir yn aml yn 'talu wrth daflu', yn tueddu i fod yn amhoblogaidd â deiliaid tai oherwydd materion yn ymwneud â thegwch, yn enwedig i'r sawl sydd â theuluoedd neu sydd o gartrefi isel eu hincwm. Fe'i hystyrir hefyd fel talu am yr un peth ddwywaith oherwydd bod gwaredu gwastraff yn rhan o'r taliadau Treth Gyngor. Mae cefnogaeth i godiadau gwahaniaethol yn cynyddu os y'u cyflwynir yn unig wedi i fesurau i wneud ailgylchu'n haws gael eu cyflwyno ac os codir taliadau'n unig ar wastraff heb ei wahanu neu wastraff gweddilliol.

**2.41** Mae cydberthynas gref rhwng yr amgylchedd ac ailgylchu, er nad yw rhesymau amgylcheddol yn unig yn ddigon o gymhelliant i ailgylchu i'r rhan fwyaf o bobl. Pan ofynnir iddynt, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud y byddent yn ailgylchu petai'n cael ei wneud yn haws, e.e. darparu cynwysyddion gan y cyngor, casgliadau palmant, mwy o fannau ailgylchu, mwy o wybodaeth am sut, ymhle a beth i'w ailgylchu, ac ati.

**2.42** Er bod y rhan fwyaf o bobl yn meddwl y dylai mwy o bobl ailgylchu, mae ganddynt hefyd resymau dwfn ynghylch pam na ddylent neu pam na allent hwy'n bersonol ailgylchu rhagor. Ymhlith y rhesymau a roddir yn aml am beidio ag ailgylchu neu gymryd rhan mewn cynlluniau ailgylchu y mae:

- diffyg diddordeb;
- diffyg lle i gadw pethau;
- diffyg amser i wahanu gwastraff;
- dim digon o wastraff i'w gwneud yn werth chweil.

**2.43** Ni eillir gorbwysleisio pwysigrwydd gwybodaeth, addysg ac ymwybyddiaeth er mwyn sicrhau cyfraddau uchel o gyfranogi mewn ailgylchu a chyfraddau uchel o wyro gwastraff i osgoi tirlenwi. Gall cyfraddau ailgylchu isel ddigwydd oherwydd nad yw'r cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu, ac oherwydd bod mythau am ailgylchu'n parhau ac yn dal i danseilio'r neges am ailgylchu. Mae angen parhau i addysgu er mwyn sicrhau bod cyfraddau cyfranogi a gwyro'n aros yn uchel.[30]

**2.44** Mae pobl yn awyddus i wybod bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi ac mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth. Mae cyhoeddusrwydd yn bwysig o safbwynt cynnig cymhelliant ac atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol.[31] Adborth a negeseuon sy'n berthnasol i unigolion sy'n gweithio orau o ran atgyfnerthu ymddygiad ailgylchu cadarnhaol. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud mwy o ymdrech pe gallent fod yn siŵr ei fod yn gwneud gwahaniaeth.

**2.45** Nid yw ymgyrchoedd cenedlaethol a rhanbarthol fel 'slim your bin' a 'rethink rubbish' wedi gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiad.[32] Dylai cynlluniau danlinellu materion lleol yn ogystal â rhai byd-eang gan fod pryder am y gymuned leol yn ddylanwad cryf.[33] Nid yw'r rhan fwyaf o bobl (eu deuparth) yn gwybod beth sy'n digwydd i'r deunyddiau a gasglant i'w hailgylchu ac mae cyfran debyg yn honni y byddent yn ailgylchu mwy pe byddent yn deall y budd i'r amgylchedd yn well.

[30] *Recycling achievement in North America, (2000)*, Enviros Consulting, Resource Recovery Forum

[31] *Public participation in plastics recycling schemes, (1998*), McDonald, S. & Ball, R., Resources, Conservation and Recycling, 22, pp123-141

[32] *Government targets versus public participation: bridging the gap, (2003)*, Tucker, P. in Sustainable Waste Management, Proceedings of the International Symposium held at the University of Dundee on 9-11 September 2003, ed Dhir, R.K., Newlands, M.D. & Dyer, T.D., Thomas Telford, pp225-234

[33] *Using the Theory of Planned Behaviour to investigate the determinants of recycling behaviour: a case study from Brixworth, UK, (2004)*, Tonglet, M., Phillips, P.S. & Read, A.D., Resrouces, Conservation and Recycling, 41, pp191-214

# 3 Yr Ymchwiliad

**3.1** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cyfarfodydd ffurfiol o'r Pwyllgor rhwng Tachwedd 2004 ac Ebrill 2005.

**3.2** Cyflwynodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad dystiolaeth, ac felly hefyd swyddogion o Uned Polisi Gwastraff ac Uned Strategaeth Wastraff Llywodraeth Cynulliad Cymru. Clywyd tystiolaeth hefyd gan gynrychiolwyr y diwydiant gwastraff, y sector cymunedol, sefydliadau sy'n hyrwyddo defnyddio deunydd ailgylchu a marchnadoedd ar gyfer deunydd ailgylchu, ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

**3.3** Anfonwyd llythyr ymgynghori at bob awdurdod lleol yng Nghymru fel rhan o'r ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr yn Atodiad 2. Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan naw o awdurdodau lleol a chyflwynwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC).

**3.4** At hynny, ymwelodd aelodau'r Pwyllgor â sawl safle rheoli ac ailgylchu gwastraff ar draws Cymru i gasglu gwybodaeth ac i drafod materion yn uniongyrchol â phobl sy'n gweithio yn y diwydiant.

**3.5** Ceir rhestr lawn o gyfranwyr at yr ymchwiliad, gan gynnwys y safleoedd yr ymwelwyd â nhw, yn Atodiad 3 a cheir crynodeb o'r dystiolaeth yn Atodiad 4.

# 4 Casgliadau ac Argymhellion

**4.1** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith i awdurdodau lleol gyrraedd y targed ar gyfer Cymru gyfan o ailgylchu a chompostio 15 y cant o wastraff trefol erbyn 2003-04, sy'n gryn gamp gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cyfnod cymharol fyr. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn siomedig i naw awdurdod lleol fethu â chyrraedd eu targedau 15 y cant unigol.

**4.2** Er y cynnydd cyffredinol mewn perfformiad, mae Cymru'n dal i wynebu her sylweddol os yw i gynyddu'r gyfradd ailgylchu a chompostio o 16 y cant[34] i 40 y cant erbyn 2010. Bydd hyn yn llawer anos na'r cynnydd a wnaed hyd yma, ond cred y Pwyllgor y dylai Cymru, yn y pen draw, anelu at ragori ar y targed hwn.

**4.3** Ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, cred y Pwyllgor mai'r materion allweddol y mae angen ymdrin â nhw yw:

- lleihau i'r eithaf y gwastraff trefol a gynhyrchir;
- annog lefelau uwch o ailgylchu a chompostio ymhlith y cyhoedd trwy ei gwneud mor hawdd ailgylchu a chompostio ag y bo modd;
- gosod y seilwaith rhanbarthol a lleol angenrheidiol yn ei le i drin y gwastraff a gesglir, a chyllido'r seilwaith hwnnw, ac, yn gysylltiedig â hyn, penderfynu ymhle y dylid lleoli'r cyfleusterau gwastraff newydd, pwy ddylai eu darparu, a thawelu ofnau'r cyhoedd ynghylch eu datblygu. O ganlyniad, mae angen dealltwriaeth glir o'r seilwaith rhanbarthol a lleol sydd ei angen i gyrraedd targedau;
- sicrhau bod marchnadoedd ar gael ar gyfer y deunydd ailgylchadwy a'r compost a gynhyrchir.

**4.4** Er bod cynnydd wedi ei wneud ar lawer o'r materion hyn, mae angen gwneud rhagor. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, mae'r Pwyllgor yn gwneud yr argymhellion canlynol.

[34] Y gyfradd a fesurwyd yn 2003-04 gan ddata NAWPI

## Targedau – ailgylchu/ tirlenwi / compostio / lleihau gwastraff

**4.5** Cred y Pwyllgor bod perygl y gellid methu targed ailgylchu/compostio 2009-10 Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac o ganlyniad y gellid hefyd fethu ei tharged statudol ar gyfer osgoi tirlenwi.

**4.6** Cred y Pwyllgor fod angen gweithredu pellach i wella cyfraddau ailgylchu a chompostio yr awdurdodau isel eu perfformiad. Cred hefyd ei bod yn bwysig i awdurdodau lleol, ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol fel y sectorau cymunedol, gwirfoddol a phreifat, gynllunio ar gyfer cyrraedd targedau tymor hwy. At hynny, gellid gwella rheoli gwastraff cynaliadwy trwy symud rhai o'r rhwystrau rhag ailgylchu a chompostio gartref sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**4.7** Cred y Pwyllgor y byddai'r argymhellion canlynol yn cyfrannu at gyrraedd targedau'r dyfodol, neu ragori arnynt:

**Argymhelliad 1: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarganfod pa awdurdodau lleol a all gael trafferth i gyrraedd y targed ailgylchu / compostio o 40 y cant ar gyfer 2009–10 a chydweithio â nhw i sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu gosod yn eu lle i gyrraedd y targed.**

**Argymhelliad 2: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau y defnyddir strategaethau rheoli gwastraff trefol yn brif offeryn i awdurdodau lleol unigol gynllunio ar gyfer eu hanghenion rheoli gwastraff ac ar gyfer cyrraedd targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Ewrop.**

**Argymhelliad 3: Y dylai awdurdodau lleol wneud defnydd llawn o wahanu deunyddiau ailgylchadwy yn y ffynhonnell a gwneud hyn mor hawdd i'r defnyddiwr ag y bo modd.** (Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn Llywodraeth Cynulliad Cymru y dylai deiliaid tai wahanu deunydd ailgylchadwy yn y ffynhonnell, ond y dylid caniatáu i awdurdodau lleol ddewis sut i gasglu deunyddiau a wahanwyd, e.e. gwahanu ar y palmant, MRF glân neu safleoedd hebrwng).

**Argymhelliad 4: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddileu'r cymhelliad gwrthnysig i awdurdodau lleol beidio ag annog compostio gartref, a datblygu mecanwaith sy'n caniatáu i gompostio gartref gyfrif tuag at dargedau osgoi tirlenwi awdurdodau lleol. Dylai awdurdodau lleol annog deiliaid tai i gompostio gartref.**

**Argymhelliad 5: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyflwyno targedau deunydd-benodol ar gyfer ailgylchu deunyddiau swmpus ond ysgafn fel plastigion.**

**Argymhelliad 6: Y dylai awdurdodau lleol barhau i gydweithio mewn partneriaeth â'r sectorau cymunedol, gwirfoddol a phreifat i ddatblygu cynlluniau lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu yn eu hardaloedd, gan gydnabod y sgiliau a'r arbenigedd penodol y gall y sefydliadau hyn eu cyfrannu at gyrraedd targedau.**

**Argymhelliad 7: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi pwysau ar Lywodraeth y DU i annog pobl i wastraffu llai / cosbi'r rheiny sy'n creu gwastraff diangen. Cred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth y DU ystyried ardollau cyfrifoldeb-cynhyrchwyr a gostyngiadau treth ar gynhyrchion caredicach i'r amgylchedd. Dylid trefnu bod ymateb Llywodraeth y DU ar gael i'r Pwyllgor.**

## Cynllunio / gweithio'n rhanbarthol

**4.8** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd y broses gynllunio ar gyfer darparu'r seilwaith rhanbarthol a lleol i gyrraedd targedau yn 2009-10 a'r tu hwnt. Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw llawer o'r seilwaith hwn, yn arbennig ar y lefel ranbarthol, yn ei le eto. Mae hyn o bryder arbennig i'r Pwyllgor o gofio'r posibilrwydd y gall fod prinder lle i dirlenwi mewn rhai rhannau o Gymru yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

**4.9** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r broses gynllunio ranbarthol a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn gam yn y cyfeiriad iawn, ond cred na fu'n llwyddiannus o ran nodi lleoliadau'r cyfleusterau newydd sydd eu hangen, ac felly o ran sicrhau ymrwymiadau pendant ar gyfer eu datblygu. At hynny, nid yw'r Pwyllgor yn argyhoeddedig bod *Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff* (a'r nodyn egluro polisi atodol) yn darparu digon o gyfeiriad ac eglurder fel bod gan awdurdodau lleol a'r sector preifat yr arweiniad sydd ei angen arnynt i ddarparu cyfleusterau gwastraff rhanbarthol.

**4.10** Cred y Pwyllgor ei bod yn hanfodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu gweledigaeth, ac arweiniad, clir a hirdymor ynghylch y mathau o gyfleusterau a thechnolegau gwastraff y dylid eu defnyddio er mwyn cyrraedd targedau ailgylchu, compostio ac osgoi tirlenwi. Dylid seilio hyn ar ddeddfwriaeth gyfredol a darpar ddeddfwriaeth y DU a'r UE. Dylai dull o'r

fath anelu at ddarparu mwy o sicrwydd hirdymor i awdurdodau lleol, y sector preifat a'r sector cymunedol / gwirfoddol, i'w galluogi i fuddsoddi a chynllunio ar gyfer cyfleusterau newydd yn hyderus. Dylai hefyd helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd o wahanol ddewisiadau rheoli gwastraff.

**4.11** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi argymhelliad Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol y dylid diwygio Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol er mwyn nodi'r mathau o leoliadau y gellid lleoli cyfleusterau rhanbarthol ynddynt, ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Unedol / Lleol yn dynodi safleoedd posibl ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff.

**4.12** Yng ngoleuni dyletswydd statudol y Cynulliad i hyrwyddo datblygu cynaliadwy, cred y Pwyllgor hefyd bod angen asesu cynaliadwyedd pob dewis rheoli gwastraff. Byddai hyn yn galluogi cymharu, er enghraifft, rhwng anfon plastigion i Tsieina i'w defnyddio ac ailbrosesu lleol.

**4.13** Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod cyfleusterau gwastraff yn amhoblogaidd ymhlith y cyhoedd ac y gallant wynebu anawsterau wrth geisio caniatâd cynllunio. Serch hynny, mae angen gwneud penderfyniadau pwysig yn awr, ac ni ellir eu gohirio ymhellach. Nid yw'r Pwyllgor yn amau o gwbl bod angen cyfleusterau, ac mae'n rhaid eu lleoli yn rhywle.

**Argymhelliad 8: Y dylid gwneud Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn statudol.**

**Argymhelliad 9: Yn y cyfamser, y dylid diwygio Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol i sicrhau eu bod yn dynodi lleoliadau daearyddol addas ar gyfer cyfleusterau rhanbarthol ac y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad cliriach i awdurdodau lleol i wireddu'r amcan hwn.**

**Argymhelliad 10: Y dylid hyrwyddo ymwneud y sector preifat ag awdurdodau lleol yn galetach trwy gyfrwng Fforwm Gwastraff Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a grwpiau gwastraff rhanbarthol.**

**Argymhelliad 11: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyngor ac arweiniad clir ar gynaliadwyedd gwahanol ddewisiadau o ran rheoli gwastraff.**

**Argymhelliad 12: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu canllawiau cliriach i awdurdodau lleol ynghylch:**

i. **pa dechnolegau yr hoffai eu gweld ar waith yng Nghymru a pha rai y mae'n dymuno eu gwrthod;**

ii. **pa dechnolegau y dylid eu defnyddio i drin gwastraff gweddilliol hyd nes y bydd modd cael gwared arno.**

**Argymhelliad 13: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cymorth ac arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch sut y gellid cymhwyso arferion gorau o rannau eraill o'r DU, Ewrop a'r byd yng Nghymru.**

## Cyllido

**4.14** Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cyllid sylweddol a roddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol ac i hyn fod yn un o'r prif ffactorau wrth sicrhau lefelau uwch o ailgylchu a chompostio. Cred y Pwyllgor bod cyrraedd targedau ar gyfer 2009–10 a'r tu hwnt yn galw am gyllid cyfalaf a chyllid gweithredu sylweddol, ac ar lefelau uwch o gryn dipyn nag a ddarperir ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 14: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi syniad i awdurdodau lleol am lefel y cyllid cyfalaf a'r cyllid gweithredu a fydd ar gael iddynt hyd o leiaf 2013, er mwyn galluogi cynllunio hirdymor a diogeledd busnes.**

**Argymhelliad 15: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru glustnodi peth o’r cyllid rheoli gwastraff ar lefel ranbarthol er mwyn annog awdurdodau lleol i gydweithio â'i gilydd ar ddatblygu cyfleusterau rhanbarthol, yn arbennig ar gyfer cyfleusterau mwy arbenigol fel compostio gwastraff cegin.**

**Argymhelliad 16: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu digon o gyllid i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu rhoi systemau casglu o'r palmant ar waith fesul cam hyd lefel sy'n gyson â chyrraedd targedau ailgylchu, compostio ac osgoi tirlenwi.**

**Argymhelliad 17: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu ffynhonnell gyngor ganolog i awdurdodau lleol ar faterion cyfreithiol, contractio a chyllid i'w galluogi i geisio arbenigedd, lleihau gwariant a llwyddo'n well i sicrhau ffynonellau cyllid allanol, gan gynnwys cronfeydd Ewropeaidd.**

## Ymwybyddiaeth y Cyhoedd

**4.15** Cred y Pwyllgor bod addysg a newid agweddau'r cyhoedd yn hanfodol bwysig ac mai dim ond os gwneir ailgylchu'n rhwydd y gellir sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y rhan werthfawr y mae llawer o sefydliadau, gan gynnwys y sectorau cymunedol a gwirfoddol, yn ei chwarae yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, a'r effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael ar gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn cynlluniau ailgylchu a chompostio. O sicrhau cefnogaeth y gymuned i gyfleusterau gwastraff newydd, ynghyd â dealltwriaeth o'r hyn y bydd y cyfleusterau hynny'n ei wneud a sut y gallant fod o fudd i gymunedau, cred y Pwyllgor y gall helpu i oresgyn yr anawsterau cynllunio sy'n aml yn gysylltiedig â nhw. Mae ymwybyddiaeth gyhoeddus ac addysg felly'n hanfodol.

**Argymhelliad 18: Y dylid addysgu pobl i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, a gwneud hynny'n barhaus, yn lleol ac mewn modd sydd wedi ei dargedu. Dylid penodi swyddogion cyswllt ym mhob awdurdod lleol i ymweld â thrigolion ac ysgolion, i gynnal sioeau teithio, etc., er mwyn cynyddu gwybodaeth deiliaid tai am yr hyn y gallant ei wneud, beth y gellir ei wneud â deunyddiau a ailgylchwyd a sut y mae gweithredoedd unigolion yn effeithio ar yr amgylchedd a'r gymuned leol. Dylai mentrau gynnwys defnyddio cynlluniau cymhelliad ac adborth cadarnhaol ynghylch pa mor dda y mae cynlluniau'n llwyddo a sut y maent o fudd i'r gymuned leol.**

**Argymhelliad 19: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog rhagor o ysgolion i fod yn rhan o'r rhaglen 'eco-'sgolion' sy'n cael ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus. Dylid hyrwyddo manteision y rhaglen yn ehangach o ran addysg, cydweddiad â chwricwla a'r potensial o ran arbed costau i'r ysgol.**

**Argymhelliad 20: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gydweithio ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac awdurdodau lleol i feithrin hyder y cyhoedd yn y prosesau monitro ac atal llygredd sydd ar waith ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff. Gallai hyn gynnwys cynlluniau addysg mewn ysgolion a chymunedau sy'n agos i gyfleusterau o'r fath, ymweld â chyfleusterau, swyddogion cyswllt cymunedol a chydweithio ag ysgolion / eco-'sgolion.**

**Argymhelliad 21: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gyllido sefydliadau sy'n cyfrannu at hyrwyddo ailgylchu a chompostio.**

## Marchnadoedd / cymorth i fusnesau

**4.16** Cred y Pwyllgor yn gryf ei bod yn bwysig creu amgylchedd lle mae hi'n fwy ymarferol yn fasnachol i gwmnïau weithredu'n gyfrifol mewn perthynas ag ailgylchu ac ailddefnyddio. Mae'n cytuno â'r rhai a awgrymodd fod angen creu dolen gynaliadwy sy'n cynnwys ailgylchwyr, proseswyr a gweithgynhyrchwyr na fydd yn newid os bydd y farchnad yn newid, a chred fod dull o'r fath yn cynnig cyfleoedd hyfforddi a chreu swyddi arwyddocaol. Cred y Pwyllgor y dylid annog awdurdodau lleol achyrff eraill yn y sector cyhoeddus i gydweithio â chwmnïau Cymreig i ddarparu'r nwyddau a'r gwasanaethau y mae eu hangen arnynt.

**Argymhelliad 22: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog a chynorthwyo busnesau i greu cynnyrch a ailgylchwyd a marchnadoedd trwy:**

i. **ddarparu mwy o gymorth ariannol a chymorth busnes, gan gynnwys cyllid ar gyfer ymchwil a datblygu, er mwyn i fusnesau presennol a busnesau newydd yng Nghymru ddefnyddio deunydd ailgylchu o'r ffrwd wastraff drefol, creu cynnyrch a ailgylchwyd a datblygu marchnadoedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau a ailgylchwyd;**

ii. **annog busnesau i wneud cais am gyllid Ewropeaidd i helpu i ddatblygu eu busnesau;**

iii. **cynorthwyo datblygu cyfleuster ailgylchu ar gyfer plastigion fferm ynghyd â marchnad i'r cynhyrchion.** (Er nad oedd hynny'n benodol o fewn cylch gwaith yr ymchwiliad, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwastraff amaethyddol a phlastigion fferm yn faterion pwysig).

**Argymhelliad 23: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cymorth a chyngor i sefydliadau'r sector cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i gaffael mwy o gynnyrch a ailgylchwyd ac y dylid ymgorffori hyn yn y broses gaffael arferol. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn esiampl o ran caffael cynnyrch a ailgylchwyd.**

**Argymhelliad 24: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru annog a helpu busnesau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff trwy:**

i. **gydweithio â busnesau a leolir yng Nghymru, yn arbennig manwerthwyr mawr, i'w hannog i leihau gwastraff, addysgu defnyddwyr a darparu cyfleusterau ailgylchu;**

ii. **rhoi cyngor a chymorth i gwmnïau yng Nghymru i leihau gwastraff a gwneud y defnydd gorau o wastraff, yn arbennig trwy ddarparu ffynhonnell gyngor ganolog i fusnesau / sefydliadau ynghylch sut i ynnal archwiliad o ffrydiau gwastraff, lleihau ac ailgylchu gwastraff ac arbed costau.**

## Ymchwil a datblygu

**4.17** Er mwyn helpu i gyrraedd y targedau tymor-hwy, mae'r Pwyllgor yn gwneud yr argymhelliad canlynol:

**Argymhelliad 25: Y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru**

i. **annog sefydlu prosiectau enghreifftiol / arddangos i egluro i awdurdodau lleol a'r cyhoedd sut y mae gwahanol dechnolegau'n gweithio;**

ii. **cyllido ymchwil a datblygu a threialon maes / prosiectau arddangos ar raddfa fasnachol ar gyfer dewisiadau posibl o ran trin gwastraff gweddilliol, nes y bydd modd ei ddileu, fel bod mwy o wybodaeth ar gael i awdurdodau lleol wrth iddynt wneud penderfyniadau;**

iii. **cyllido ymchwil a datblygu i ddefnyddio deunyddiau a ailgylchwyd mewn ffyrdd newydd i wneud cynhyrchion newydd.**

## Atodiad 1

# Argymhellion adroddiadau diweddar ar reoli gwastraff yng Nghymru

*Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio Rheoli Gwastraff; Adroddiad Pwyllgor (2) 01-05 (2005)*, y Pwyllgor Archwilio.

i. *yn y dyfodol, os ceir deddfwriaeth newydd neu os caiff deddfwriaeth ei ddiweddaru, fod Llywodraeth y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod yr holl bwerau perthnasol yn cael eu datganoli i'r Cynulliad;*

*ii. bod Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i annog awdurdodau lleol i ailgylchu gwastraff trefol ac i geisio osgoi ei waredu mewn safleoedd tirlenwi, ond ei bod yn hefyd yn canolbwyntio'i hymdrechion ar leihau'r 24 miliwn tunnell o wastraff a gaiff ei gynhyrchu gan ffynonellau eraill, yn enwedig gwastraff amaethyddol;*

*iii. bod cynlluniau gwastraff rhanbarthol yn cael eu hadolygu er mwyn nodi'r math o leoliadau lle gellid creu cyfleusterau rhanbarthol. Rydym yn argymell ymhellach fod Llywodraeth y Cynulliad yn cyflwyno cyfarwyddyd i awdurdodau lleol i sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Unedol/Lleol yn nodi safleoedd posibl ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff;*

*iv. bod Llywodraeth y Cynulliad a'r Asiantaeth yn ystyried nodi sut y mae modd goresgyn y rhwystr a gaiff ei greu gan ddiffyg data ynghylch faint o le sydd ar gael mewn safleoedd tirlenwi;*

*v. bod Llywodraeth y Cynulliad, fel rhan o'i hymgyrch i godi ymwybyddiaeth, yn ystyried sut y gallai addysgu'r cyhoedd yn well a'u cynnwys yn y broses o ddewis ffyrdd o waredu wastraff;*

*vi. bod Llywodraeth y Cynulliad, gyda chymorth yr Asiantaeth, yn rhoi ystyriaeth briodol i gasgliadau'r prosiect ymchwil ac yn sicrhau bod iechyd yn dod yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio mewn perthynas â chyfleusterau gwastraff a datblygiadau eraill a all effeithio ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl;*

*vii. bod yr Asiantaeth a Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i fusnesau sy'n ymwneud â chynhyrchu a rheoli gwastraff peryglus ynglyn â'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gwaredu gwastraff peryglus yng Nghymru;*

*viii. bod yr Asiantaeth, wrth iddi ymgymryd â'i gwaith o roi trwyddedau a chaniatâd, yn cofio bod perygl i ymgynghoriadau cyhoeddus hirfaith arwain at gostau afresymol i'r gweithredwyr, ac y gall y costau hynny fod yn ddigon o rwystr iddynt beidio ag agor cyfleusterau gwaredu a thrin gwastraff y mae eu dirfawr angen;*

*ix. bod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cynnal adolygiad manwl o'i chofrestr o eithriadau ac yn clustnodi'r gweithgareddau hynny sy'n peryglu'r amgylchedd fwyaf gan sicrhau eu bod yn cael eu rheoleiddio'n briodol cyn ac ar ôl i'r rheoliadau newydd ddod i rym;*

*x. bod Llywodraeth y Cynulliad yn sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cofrestru ac yn defnyddio system Flycapture heb oedi ymhellach;*

*xi. bod Llywodraeth y Cynulliad ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn ystyried a'i dosbarthu taflenni drwy awdurdodau lleol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddysgu busnesau am y system dyletswydd gofal ym maes gwastraff ac a ddylent ystyried ffyrdd eraill o godi ymwybyddiaeth;*

*xii. bod yr Asiantaeth a Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal adolygiad o'r modd y caiff troseddwyr eu dedfrydu yng Nghymru ac yn ceisio dylanwadu ar y cyrff priodol yn San Steffan. Rydym hefyd yn arygmell bod yr Asiantaeth yn datblygu pecyn cymorth 'Costio'r Ddaear' yng nghyd-destun Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o drosedd amgylcheddol ymhlith ynadon a barnwriaeth Cymru.*

*Rheoli Gwastraff: Agenda Heriol i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru (2005), Papur Thema 9,* y Comisiwn Archwilio yng Nghymru

| Mater | Camau gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Mae Cymru yn parhau i gynhyrchu gormod o wastraff. Rydym yn cynhyrchu mwy o wastraff nag erioed o'r blaen. Mae hon yn broblem sydd i raddau helaeth y tu hwnt i ddylanwad awdurdodau lleol. | Nid yw'r mater hwn yn fater sy'n benodol i Gymru. Mae'r broblem yn ymestyn ledled y DU. Mae angen arweiniad deddfwriaethol gan lywodraeth y DU.<br>Serch hynny, gall Llywodraeth Cynulliad Cymru helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn drwy nodi a hyrwyddo mesurau lleihau gwastraff effeithiol, (er enghraifft drwy ei Ymgyrch Cynllun Craff am Wastraff, a sefydlwyd yn rhannol at y diben hwn). Bydd hyn yn helpu deiliaid tai i greu llai o wastraff a rhoi cymhelliant i fusnesau, er enghraifft i gynhyrchu nwyddau gyda llai o becynnu. | Llywodraeth y DU<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Cynhyrchwyr gwastraff |

| Mater | Camau gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Efallai y bydd y cynigion ar y Cynlluniau Datblygu Lleol arfaethedig yn oedi penderfyniadau buddsoddi ar y prif seilwaith hyd nes 2010. Fodd bynnag, mae buddsoddiad yn angenrheidiol bellach er mwyn cyflawni targedau'r GE ar gyfer dargyfeirio. Felly nid yw'r broses gynllunio yn unol ag anghenion gwastraff Cymru. | Tra ei bod yn aros i Gynlluniau Datblygu Lleol gael eu cynhyrchu, mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol wedi cynllunio ar gyfer datblygu seilwaith gwastraff effeithiol o fewn eu Cynlluniau Datblygu Unedol neu eu Cynlluniau Datblygu Lleol. | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Er gwaethaf ei bwysigrwydd nid yw rheoli gwastraff yn cael y flaenoriaeth y mae'n ei haeddu gan rai awdurdodau o hyd. | Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn bydd angen asesiadau risgiau mwy cadarn a chodi ymwybyddiaeth aelodau. | Awdurdodau lleol<br>Rheoleiddwyr |
| Mae rhai awdurdodau Cymru yn parhau i ddatblygu polisi rheoli gwastraff heb gyfeirio at faterion cynaliadwyedd ehangach. Mae rheoli gwastraff yn un rhan o ddatblygu cynaliadwy ac mae'n gysylltiedig ag adfywio cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae polisi effeithiol yn dibynnu ar ymdrin â rheoli gwastraff fel rhan o'r agenda ehangach hon. | Mae angen i awdurdodau sicrhau yr eir i'r afael â pholisi rheoli gwastraff o fewn yr agenda 'cynaliadwyedd' gyffredinol. Mae'n hanfodol bod cynlluniau a pholisïau yn cael eu hintegreiddio a'u bod yn gyson. Mae angen i awdurdodau sicrhau bod polisi rheoli gwastraff yn rhan annatod o'u Strategaethau Cymunedol. | Awdurdodau lleol |

<table>
<tr><th>Mater</th><th>Camau gweithredu sydd eu hangen</th><th>Cyfrifoldeb</th></tr>
<tr><td>Mae ansawdd Strategaethau Rheoli Gwastraff Trefol Awdurdodau Lleol yn amrywiol iawn. Nid yw rhai o'r strategaethau hyn yn ddigonol i fynd i'r afael â'r materion a wynebir.</td><td>Mae'n hanfodol bod y Strategaethau hyn yn cael eu paratoi yn unol â safon uchel. Er mwyn cyflawni hyn mae'n bwysig bod:<ul><li>Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyhoeddi arweiniad manylach ar gynnwys disgwyliedig y strategaethau hyn;</li><li>awdurdodau yn neilltuo mwy o adnoddau i fireinio a datblygu'r strategaethau;</li><li>rheoleiddwyr yn adolygu pa mor gadarn yw'r Cynlluniau ac yn cyflwyno adroddiadau yn unol â hynny.</li></ul></td><td>Awdurdodau lleol<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Rheoleiddwyr</td></tr>
<tr><td>Mae gwasanaethau rheoli gwastraff awdurdodau lleol yn tueddu i gael eu trefnu ar sail ardal awdurdod. Mae angen mynd ati i weithio'n rhanbarthol yn well ac mae angen ystyried modelau gwasanaeth eraill.</td><td>Mae angen ymchwilio i'r angen am gyd-gynllunio rheoli gwastraff a chaffael ar lefel ranbarthol ar frys os nad yw cronfeydd cyhoeddus i gael eu defnyddio'n ddiangen i ddyblygu astudiaethau dichonolrwydd a'r posibilrwydd o orddarparu cyfleusterau. Dylai adolygiad o'r fath gynnwys nid yn unig fodelau o gyflawni gwasanaeth ond dylai hefyd roi sylw i'r fframwaith strwythurol presennol (sy'n seiliedig yn drefniadol ar 22 awdurdod lleol) i benderfynu ai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol i gyflawni rheolaeth effeithiol ar wastraff yng Nghymru.<br>Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnig datblygu gwefan wybodaeth a gallai hyn hefyd fod yn sianel bwysig i hwyluso gweithio rhanbarthol.</td><td>Asiantaeth yr Amgylchedd<br>Awdurdodau Lleol<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru</td></tr>
</table>

| Mater | Camau gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Mae capasiti ar gyfer tirlenwi yn gyfyngedig iawn ledled Cymru ac mewn rhai ardaloedd mae'r sefyllfa'n mynd yn ddifrifol iawn. | Yn yr hirdymor dim ond drwy ddargyfeirio gwastraff o dirlenwi y gellir mynd i'r afael â hyn.<br>Yn y byrdymor, mae angen dybryd i ymchwilio lle mae capasiti o hyd a datblygu ymagwedd strategol ledled Cymru o ran y defnydd o'r capasiti hwn. | Asiantaeth yr Amgylchedd<br>Awdurdodau Lleol<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Mae awdurdodau lleol Cymru yn wynebu targedau llym iawn ar gyfer dargyfeirio gwastraff o dirlenwi. Mae perfformiad awdurdodau Cymru yn amrywio'n sylweddol. Methodd naw o'r ddau awdurdod ar hugain yng Nghymru â chyflawni targed strategaeth wastraff Cymru ar gyfer 2003/2004 yn llawn. Mae targedau ar gyfer y dyfodol hyd yn oed yn fwy ymestynnol. Gall methu â chyflawni targedau'r GE arwain at gosbau ariannol sylweddol. | Mae angen camau gweithredu brys yn yr awdurdodau hynny sydd wedi methu â chyflawni'r targed cyntaf. Bydd angen i'r awdurdodau hyn fynd i'r afael â'r mater; bydd angen iddynt adolygu eu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael a'r targedau a dylent geisio dysgu o'r awdurdodau hynny sydd wedi cyflawni gwelliant sylweddol. Bydd angen i reoleiddwyr weithio gyda'r awdurdodau hyn er mwyn sicrhau bod camau gweithredu priodol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni'r targedau ar gyfer y dyfodol. | Awdurdodau lleol<br>Rheoleiddwyr |

| Mater | Camau gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Mae'r data perfformiad ar wastraff (yn enwedig data costau) a ddelir gan lawer o awdurdodau lleol yn wael. Mae hyn yn effeithio ar eu gallu i ddatblygu strategaethau gwastraff effeithiol. At hynny, nid yw gwaith rheoli perfformiad ar gyfer gwasanaethau rheoli gwastraff wedi'i ddatblygu'n llawn mewn nifer o awdurdodau. | Mae angen darparu adnoddau o fewn awdurdodau lleol er mwyn datblygu systemau gwybodaeth gwell. Mae angen i awdurdodau lleol gasglu a dadansoddi data sy'n ymwneud â biniau sbwriel, llwybrau casglu, cyfranogiad mewn cynlluniau gwastraff, costau casglu, cynlluniau ailgylchu a gwaredu, tunelleddau a thipio anghyfreithlon.<br><br>Mae angen i awdurdodau wneud mwy i ddatblygu fframweithiau rheoli perfformiad cadarn. Efallai y bydd hyn yn cynnwys meincnodi gydag awdurdodau eraill neu gynnal adolygiadau cymheiriaid. | Awdurdodau lleol<br>Rheoleiddwyr |
| Mae awdurdodau yng Nghymru wedi gweithio'n galed i wella eu gwasanaethau gwastraff. Fodd bynnag, gallai'r gwelliant fod wedi bod yn fwy cyflym pe byddai gan awdurdodau fwy o gyfle i weld enghreifftiau o arfer da o ffynonellau yn y DU ac yn rhyngwladol, yn amlygu'r hyn sy'n gweithio a sut y gellir ei roi ar waith. | Mae gan reoleiddwyr, asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau ymchwil academaidd ran allweddol i'w chwarae yn y maes hwn, gan gasglu a choladu enghreifftiau o arfer da, hwyluso meincnodi ac annog awdurdodau yng Nghymru i fabwysiadu ffocws mwy rhyngwladol. | Mae gan reoleiddwyr, asiantaethau'r llywodraeth a sefydliadau ymchwil academaidd ran allweddol i'w chwarae yn y maes hwn, gan gasglu a choladu enghreifftiau o arfer da, hwyluso meincnodi ac annog awdurdodau yng Nghymru i fabwysiadu ffocws mwy rhyngwladol. |
| Er y gwnaed llawer o waith i wella ansawdd compostio, mae ansawdd y cynnyrch terfynol o rai cyfleusterau'n amrywiol o hyd oherwydd y prosesau a ddefnyddir, yn enwedig y rheiny nad ydynt yn ceisio ennill achrediad Safon Brydeinig PAS. | Rhaid creu, datblygu a mireinio prosesau compostio i sicrhau bod mewnbynnau compostio'n ateb safon ansawdd PAS 100 a ddatblygwyd gan WRAP mewn cydweithrediad â'r Composting Association.<br><br>Anogir awdurdodau lleol i ymaelodi â'r Composting Association. | Awdurdodau lleol,<br>Cyrff ymchwil eraill<br>WRAP |

| Mater | Camau gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Mae canfyddiad y cyhoedd o berfformiad awdurdodau lleol o ran glanhau strydoedd yn aml yn groes i'r perfformiad a gofnodir. | Mae angen i awdurdodau ddatblygu system werthuso gredadwy a'i defnyddio. | Cadwch Gymru'n Daclus<br>Gweithredwyr LEAMS<br>Awdurdodau lleol – o bosibl drwy grwpiau meincnodi. |
| Mae gwelliant yn dibynnu ar ddealltwriaeth y cwsmer. Mae'n hanfodol pennu pa newidiadau y bydd y cwsmer yn eu derbyn, beth fyddai'n annog mwy o gyfranogiad mewn cynlluniau gwastraff a sut i ddarparu cymhellion ar gyfer y cwsmer er mwyn lleihau'r gwastraff a gynhyrchir. Er bod rhywfaint o arfer da yn y maes hwn, prin iawn a wnaed gan sawl awdurdod i ddeall anghenion defnyddwyr gwasanaethau gwastraff. | Mae angen mwy o ymgysylltiad â defnyddwyr gwasanaethau gwastraff, i bennu safbwyntiau am wasanaethau presennol ac i lywio'r strategaeth ar gyfer y dyfodol. Efallai y bydd ymgysylltiad yn cynnwys arolygon cwsmeriaid a grwpiau ffocws dinasyddion. | Awdurdodau lleol<br>Rheoleiddwyr |
| Nid yw nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi ceisio craffu ar eu proses cynhyrchu gwastraff eu hunain yn drylwyr. Nid ydynt yn arwain drwy esiampl ar faterion megis lleihau gwastraff ac ailddefnyddio gwastraff. | Mae angen i awdurdodau graffu ar eu gweithgarwch presennol a phennu p'un a oes lle i leihau'r gwastraff a gynhyrchir ganddynt ac ailddefnyddio gwastraff a dirlenwir ar hyn o bryd.<br>Dylai awdurdodau ymrwymo i Ymgyrch Lleihau Gwastraff yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.<br>Dylai awdurdodau ystyried gwneud cais am achrediad amgylcheddol (e.e. y Ddraig Werdd) o ran rheoli eu gwastraff eu hunain. | Awdurdodau lleol |

| Mater | Camau gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Mae'r data ar gael ar weithgarwch gorfodi gan awdurdodau lleol o ran troseddau baeddu gan gwn a thaflu sbwriel yn amrywio. Mewn rhai awdurdodau, anaml iawn y cymerir camau gorfodi. | Dylai pob awdurdod roi systemau ar waith i gofnodi gweithgarwch gorfodi.<br><br>Dylai awdurdodau adolygu p'un a yw eu polisi gorfodi yn ddigon cadarn a ph'un a yw'n cael ei gymhwyso'n briodol. | Awdurdodau lleol |
| Nid yw'r Cod Ymarfer ar Sbwriel (1999) yn gyfredol ac nid yw'n adlewyrchu newidiadau diweddar yn y gymdeithas, e.e. twf yr economi 24 awr. | Mae angen i Llywodraeth Cynulliad Cymru ddiweddaru'r Cod mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol, Cadwch Gymru'n Daclus a rhanddeiliaid eraill. | Cadwch Gymru'n Daclus<br>Awdurdodau Lleol<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Mae tipio anghyfreithlon yn broblem gynyddol mewn llawer o ardaloedd awdurdodau lleol. | Mae angen i awdurdodau fynd i'r afael â'r mater hwn mewn nifer o ffyrdd. Dylai mesurau gynnwys:<br>• camau gweithredu cadarn yn erbyn troseddwyr;<br>• hyrwyddo balchder mewn cymunedau;<br>• darparu cyfleusterau i waredu gwastraff e.e. gwaredu gwastraff masnachol mewn safleoedd amwynder dinesig;<br>• cyflwyno gwybodaeth ar gronfa ddata FlyCapture | Awdurdodau lleol |
| Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael ar effeithiolrwydd rhai mentrau gwastraff. | Mae angen neilltuo mwy o adnoddau i asesu mentrau gwastraff newydd.<br>Yn ogystal, mae angen gwaith i nodi, cyfuno a rhannu'r ymchwil sydd ar gael ar fentrau arloesol sy'n gweithredu y tu allan i Gymru ac i asesu i ba raddau y gall elfennau arloesol gael eu trosglwyddo. Mewn meysydd lle mae rhywfaint o ymchwil eisoes yn bodoli, dylid comisiynu ymchwil bellach.<br>Dylai canlyniadau'r cynllun monitro a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cynlluniau Enghreifftiol Cymru gael eu rhannu ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill cyn gynted ag y bo'r wybodaeth hon ar gael. | Awdurdodau lleol<br>Sefydliadau proffesiynol ac ymchwil<br>Rheoleiddwyr<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru |

| Mater | Camau gweithredu sydd eu hangen | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu gweithrediad WRAP ac wedi cyfrannu £1 miliwn i'r prosiect Amcan 1 'Creu Marchnadoedd Cymreig ar gyfer Ailgylchu' (CWMre), mae rhai awdurdodau lleol wedi dweud eu bod yn ei chael yn anodd nodi marchnadoedd sy'n fasnachol hywedd i'r deunydd ailgylchadwy y maent yn ei gasglu. | Mae angen i awdurdodau lleol gydweithredu yn y maes hwn; i rannu arferion nodedig a chreu contractau ar y cyd er mwyn sicrhau darbodusrwydd maint lle bynnag y bo'n bosibl, (mae contract ar y cyd ar gyfer gwydr eisoes mewn bodolaeth). Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol, WRAP ac Ymddiriedolaeth Yr Amgylchedd Cymru (WET) weithio gyda'i gilydd i sicrhau y defnyddir marchnadoedd presennol a newydd yn well yng Nghymru ac i farchnadoedd pellach gael eu datblygu lle bo'r angen. | Awdurdodau Lleol<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Awdurdod Datblygu Cymru<br>WET<br>WRAP |
| | Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru. WLGA, WRAP a WET weithio gyda'i gilydd i ddatblygu arolwg er mwyn cael darlun cywir o'r marchnadoedd deunyddiau ailgylchu ac i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio. | Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru/Swyddf a Archwilio Cymru<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Local authorities<br>WET<br>WRAP |
| | Dylid datblygu cyfeirlyfr sy'n cyflwyno marchnadoedd presennol ar gyfer deunydd ailgylchu a gofynion ansawdd prosesau i ddeunyddiau ailgylchu gwahanol. | Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>WET<br>WRAP |
| | Mae angen rhagor o integreiddio rhwng awdurdodau lleol a WRAP i nodi anghenion awdurdod lleol ac i roi gwybod i awdurdodau am farchnadoedd presennol a datblygol. | Local authorities<br>WRAP |
| Mae cyfraddau ailgylchu yn tueddu i fod yn is mewn ardaloedd lle y ceir amddifadedd uchel. | Mae angen i awdurdodau ystyried mabwysiadu gwahanol ymagweddau tuag at ailgylchu o fewn eu hardaloedd lleol er mwyn sicrhau'r cyfranogiad mwyaf posibl ym mhob ardal, h.y. efallai na fydd un cynllun ailgylchu ar draws awdurdod lleol cyfan yn briodol. | Awdurdodau lleol<br>Rheoleiddwyr<br>Sefydliadau Ymchwil<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru |

Atodiad 2

# Llythyr Ymgynghori a Anfonwyd at Awdurdodau Lleol

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
**Environment, Planning and Countryside Committee**
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

At: Prif Weithredwyr Awdurdodau Leol 5 Ionawr 2005

Annwyl Gyd-weithiwr,

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni targedau ailgylchu a gwyro tirlenwi a hoffai glywed barn yr awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad yw:

- ystyried cynnydd wrth gyflawni targedau ailgylchu a chompostio a eglurwyd yn Yn Gall gyda Gwastraff drwy drafod dulliau gweithredu'r polisi gan gynnwys y system gynllunio, ffynonellau cyllid a'r defnydd a wneir ohono , a rôl y rhanddeiliaid;
- ystyried a oes angen mesurau ychwanegol i sicrhau fod Cymru'n cyflawni'r gofynion statudol dan y Gyfarwyddeb Dirlenwi;
- gwneud argymhellion.

Mae'r pwyllgor wedi ystyried adroddiad drafft rhagbaratoawl 'Cynnydd wrth Gyflwyno 'Yn Gall gyda Gwastraff', Strategaeth Genedlaethol Cymru ar Wastraff' ac wedi clywed tystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 2 Rhagfyr.

I gynorthwyo dadansoddiad y Pwyllgor, byddem yn ddiolchgar iawn am gael clywed barn eich awdurdod ar y canlynol:

- pa mor gyraeddadwy yw targedau ailgylchu/compostio 2003-04, 2006-07 a 2009-10 a tharged lwfans tirlenwi 2010, ac unrhyw her sydd yn wynebu'ch awdurdod wrth gyrraedd y targedau hyn;
- er mwyn cyrraedd targedau, faint o ddefnydd a wneir o gasglu ymyl pafin ac ailgylchu a pha mor effeithiol yw hyn. Manylion am y cartrefi yn eich cylch sy'n cymryd rhan yn y broses;
- profiad o'r system cynllunio defnydd tir o ran rheoli gwastraff, gan gyfeirio at strategaethau lleol a rhanbarthol rheoli gwastraff, a threfnu ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch lleoli cyfleusterau rheoli gwastraff;
- beth arall y dylid ei wneud i gyrraedd y targedau ailgylchu a gwyro tirlenwi;
- cyllido rheoli gwastraff;
- unrhyw sylwadau eraill sy'n berthnasol i'r cylch gorchwyl.

A wnewch chi anfon eich sylwadau ataf i yn y cyfeiriad uchod neu drwy'r e-bost gareth.woodhead@wales.gsi.gov.uk erbyn 16 Chwefror 2005. Os hoffech gael unrhyw wybodaeth bellach, gellwch gysylltu â mi ar 029 20898020.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Dr Kevin Bishop o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Yn gywir,

**Gareth Woodhead**
Dirprwy Glerc y Pwyllgor

# Gwybodaeth a roddwyd gerbron yr ymchwiliad

**Tystiolaeth ysgrifenedig**

Cafwyd ymateb i'r broses ymgynghori ysgrifenedig gan yr awdurdodau lleol isod:

- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Gwynedd

## Tystiolaeth lafar[1]

Cafwyd tystiolaeth gan yr unigolion a'r mudiadau isod yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor:

**24 Tachwedd 2004**

- Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
- Dr. Andy Rees, Pennaeth Uned y Strategaeth Wastraff, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Robert Williams, Pennaeth Uned y Polisi Gwastraff, Llywodraeth Cynulliad Cymru

**2 Rhagfyr 2004**

- Y Cynghorydd Delme Bowen, Cyngor Dinas Caerdydd ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

[1] Mae cofnod o'r dystiolaeth lafar a gyflwynwyd ar gael ar dudalennau'r Pwyllgor ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol: http://www.cymru.gov.uk/keypubassemcommittees/index.htm

- Barry Hankey, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dr Kevin Bishop, Pennaeth Adfywio a'r Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Rachel Jowitt, Swyddog Polisi Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Mal Williams, Prif Weithredwr, Cylch - Rhwydwaith Ailgylchu Cymunedol Cymru

**12 Ionawr 2005**

- Berian Griffiths, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA)
- Adrian Stewart, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA)
- Mike Walker, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA)
- Andy Gibbs, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff
- Steve Lee, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff

**2 Chwefror 2005**

- Steve Creed, Cyfarwyddwr Busnes a Chaffael, Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau
- Richard Carter, Rheolwr Marchnata, Ymddiriedolaeth Amgylchedd Cymru (WET)

**2 Mawrth 2005**

- Dr. Helen Phillips, Cyfarwyddwr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Ceri Phillips, Rheolwr Uned Strategaeth Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
- Nic Parr, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

**13 Ebrill 2005**

- Y Cynghorydd Delme Bowen, Cyngor Dinas Caerdydd ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dr Kevin Bishop, Pennaeth Adfywio a'r Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Rachel Jowitt, Swyddog Polisi Amgylchedd, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Dr. Andy Rees, Pennaeth Uned y Strategaeth Wastraff, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Robert Williams, Pennaeth Uned y Polisi Gwastraff, Llywodraeth Cynulliad Cymru

**21 Ebrill 2005**

- Jeremy Colman, Archwilydd Cyffredinol Cymru
- Andy Phillips, Swyddfa Archwilio Cymru
- John Scrimgeour, Swyddfa Archwilio Cymru

**Ymweliadau**

Bu'r Pwyllgor yn ymweld â'r safleoedd ailgylchu a rheoli gwastraff isod fel rhan o'r ymchwiliad:

**27 Ionawr 2004**

- Newport Wastesavers Cleanstream® Resource Centre, Casnewydd
- Worm Tech Ltd. - Canolfan compostio caeedig, Caer-went, Sir Fynwy
- Ymddiriedolaeth Adnoddau Amgylcheddol Sir Gaerfyrddin (CERT), safle rheoli gwastraff Nantycaws, Sir Gaerfyrddin
- Adnodd Ailgylchu Cae Post (MRF), Y Trallwng, Powys
- Canolfan Ailgylchu Potters, Y Trallwng, Powys

**24 Chwefror 2005**

Canolfan Ynni ac Adfer Deunyddiau (MREC) Tywyn Crymlyn, Castell-nedd Port Talbot

## Atodiad 4

# Crynodeb o'r dystiolaeth

| | Llywodraeth Cynulliad Cymru | CLILC | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | Swyddfa Archwilio Cymru | Cylch | WRAP | WET | WESA | CIWM | Bro Morgannwg | CBS Tor-faen | CBS Merthyr Tudful | CBS Pen-y-bont ar Ogwr | CBS Wrecsam | CBS Caerffili | Cyngor Dinas Casnewydd | Cyngor Sir Powys | Cyngor Sir Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Targedau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Byddai ailgylchu a chompostio 40% o wastraff yn cwrdd â tharged y Gyfarwyddeb Tirlenwi | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mae'r targedau'n seiliedig ar bwysau felly mae Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio ar ddeunyddiau trwm | | ✓ | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | |
| Rhaid i dargedau a safonau fod yn hirdymor ac yn sefydlog | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | |
| **Polisïau i gyrraedd targedau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ni ddylai strategaethau rheoli gwastraff bwrdeistrefol fod yn statudol | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Byddai adolygiadau gan gymheiriaid yn lledaenu arfer gorau | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mae angen arweiniad gwleidyddol cryfach | | | | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ |
| **Cynllunio / isadeiledd / capasiti** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Awdurdodau Lleol ddylai benderfynu ar y math o ganolfannau gwastraff sydd eu hangen ac ar eu lleoliad | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Y 'farchnad' ddylai benderfynu ar faint y canolfannau | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mae ar Gymru angen gwaith/gweithfeydd i ddelio â gwastraff gweddillol | | | | ✓ | | | | | | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | |
| Mae angen casglu gwastraff o dai yn amlach / casglu mwy o ddeunyddiau | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | ✓ | |
| Dylai Awdurdodau Lleol nodi safleoedd addas ar gyfer canolfannau gwastraff | ✓ | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | ✓ |
| Mae pobl yn unllygeidiog wrth ystyried canolfannau gwastraff | | ✓ | | ✓ | | | ✓ | | | | | | ✓ | | ✓ | | | |
| Mae cynnwys y gymuned wrth ddatblygu canolfannau gwastraff yn lleihau gwrthwynebiad i geisiadau cynllunio | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | |
| Mae ar fuddsoddwyr angen sicrwydd o ran rheoleiddio a chontractau | | ✓ | ✓ | | | | | ✓ | | | | | | | | | | |
| Mae nifer y canolfannau gwastraff yn lleihau | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | | | | | | | |
| Dylid ystyried cyflwyno rhagdybiaeth o blaid cyfleusterau gwastraff | | | ✓ | | | | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | | | | |
| **Cynlluniau rheoli gwastraff rhanbarthol/ gweithio ar lefel ranbarthol** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dylid gwneud cynlluniau gwastraff rhanbarthol yn gynlluniau statudol | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | |
| Nid yw cynlluniau rheoli gwastraff rhanbarthol wedi nodi safleoedd posibl | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | | | ✓ |
| Mae angen i'r Awdurdodau Lleol gydweithio'n amlach | | | ✓ | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | ✓ |
| **Cyllid** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mae Awdurdodau Lleol yn defnyddio'u grantiau mewn ffyrdd gwahanol | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | |
| Dylid ailfuddsoddi arbedion o'r Credyd Treth Tirlenwi mewn rheoli gwastraff NEU mae'r ailfuddsoddi hwn yn digwydd eisoes | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | ✓ | | | | | | |
| Mae cymorthdaliadau'n anghynaliadwy | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | |
| Dim ond gyda chymorth grantiau y cyrhaeddwyd lefelau ailgylchu/compostio | | ✓ | | | | | | | ✓ | | | ✓ | | | | | | |
| Mae angen mwy o fuddsoddi cyfalaf/cyllid craidd | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| **Caffael** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mae ar Awdurdodau Lleol angen mwy o help gyda chaffael a chontractau | | ✓ | | | | | | | | | | | ✓ | | ✓ | | | |
| Mae angen contractau llai er mwyn annog y sector cymunedol i gymryd rhan | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | |
| Mae angen contractau mwy a hirdymor er mwyn cael sicrwydd masnachol | | | | | | | | ✓ | | | | ✓ | | | | | | |

| | Llywodraeth Cynulliad Cymru | CLILC | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | Swyddfa Archwilio Cymru | Cylch | WRAP | WET | WESA | CIWM | Bro Morgannwg | CBS Tor-faen | CBS Merthyr Tudful | CBS Pen-y-bont ar Ogwr | CBS Wrecsam | CBS Caerffili | Cyngor Dinas Casnewydd | Cyngor Sir Powys | Cyngor Sir Gwynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynni o wastraff (EfW)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Bydd EfW yn bwysig o ran cyrraedd targedau 2013, 2020 a thargedau eraill yn y dyfodol | ✓ | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | | ✓ |
| Nid yw'r cyhoedd wedi derbyn EfW | | ✓ | | ✓ | | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | |
| **Compostio** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dylid annog compostio yn y cartref | | | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | |
| Mae annog compostio yn y cartref yn tanseilio targedau'r Awdurdodau Lleol | | ✓ | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | ✓ |
| Nid yw targedau sy'n seiliedig ar wastraff a ddidolir lle y'i cynhyrchir yn annog mathau eraill o gompostio | | | | | | | ✓ | | | | | | | ✓ | | ✓ | | |
| Mae angen casglu gwastraff organig hyd yn oed os yw pobl yn compostio yn y cartref | | | | | | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | |
| Nid yw'r syniad o gompostio / casglu gwastraff organig wedi ennill ei blwyf gyda'r cyhoedd | | | | | | | ✓ | | | | | | | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Annog y cyhoedd i gymryd rhan / newid agweddau** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dylid gwneud y broses o ailgylchu cyn hawsed ag y gallai fod | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mae pobl o blaid ailgylchu / compostio | | | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | | | | |
| Mae angen darbwyllo / addysgu'r cyhoedd am ailgylchu / gwastraff | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Yn y tymor hir, dylid ystyried codi tâl | ✓ | | | | ✓ | | | | | ✓ | | | | | | ✓ | ✓ | |
| Dylai gwastraff gael ei ddidoli yn y cartref | | ✓ | | | ✓ | | | | | | | | | | | | | ✓ |
| **Marchnadoedd** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Hyd yma, nid yw marchnadoedd lleol ar gyfer sgilgynhyrchion ailgylchu wedi'u datblygu'n effeithiol | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | ✓ | | | | | | | | | ✓ | |
| Byddai pryderon am farchnadoedd pe bai cynnydd mewn ailgylchu / compostio | | ✓ | | | | | | | ✓ | | | | | | | | ✓ | ✓ |
| Mae angen ehangu'r farchnad ar gyfer sgilgynhyrchion ailgylchu | | ✓ | | | | ✓ | | | ✓ | | | | | | | | | ✓ |
| **Lleihau gwastraff** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Dylid mynd i'r afael â gwastraff lle y'i cynhyrchir - cyfrifoldeb ar gynhyrchwyr | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | ✓ | | | | | | | ✓ | ✓ | |
| Rhaid pwyso am gyfyngiadau ar wastraff ar lefel y DU / UE | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | | | | | | | | | | | |
| **Materion eraill** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Rhaid targedu gwastraff o bob ffynhonnell | | | | | | | | | ✓ | | | | | | | | | |